PARTNERIAETH OGWEN

# Adroddiad Blynyddol **Partneriaeth Ogwen**

# 2023

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn gofnod o waith Partneriaeth Ogwen yn ystod y cyfnod rhwng Rhagfyr 2022 a Tachwedd 2023. Mae'r adroddiad yn crynhoi prif brosiectau'r Bartneriaeth gan dynnu sylw at ymdrechion staff a gwirfoddolwyr Partneriaeth Ogwen yn ystod y flwyddyn.

# Gweledigaeth Partneriaeth Ogwen

*Cyd-greu dyfodol lle mae'r economi, yr iaith a'r diwylliant, yr amgylchedd a'n cymuned yn ffynnu.*

# Adroddiad Blynyddol 2023

Yn unol â'n Cynllun busnes, gweledigaeth Partneriaeth Ogwen yw creu cymuned a sefydliad cydnerth sy'n gweithredu'n arloesol er budd cymunedau, economi ac amgylchedd Dyffryn Ogwen.

**Rydym yn amcanu i wneud hyn trwy:**

Gryfhau seiliau'r sefydliad gan gynyddu'n cymhwysedd staffio i ddarparu gwasanaethau a phrosiectau o'r ansawdd uchaf.

Gwarchod a chreu ffrydiau incwm newydd.

Atgyfnerthu ein polisïau a gweithdrefnau mewnol i warchod ein staff a gwirfoddolwyr

Blaenoriaethu prosiectau sy'n creu budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gyda ffocws ar drosglwyddo asedau cymunedol, prynu asedau newydd i greu incwm a phrosiectau sy'n gwneud ein cymuned yn fwy gwydn, cynaliadwy a chydnerth.

Cydweithio yn arloesol gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhanbarthol.

Yn treiddio trwy hyn oll mae'r thema cynaladwyedd sy'n greiddiol i'n holl weithgareddau ac yn cwmpasu cynaladwyedd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Yn 2021, mabwysiadwyd Llwybr Trawsnewid (Theory of Change) sy'n gosod amcanion a deilliannau byrdymor a hir dymor i'n gwaith a gosod fframwaith i fesur effaith ein prosiectau. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cydfynd â'r targedau a amlinellwyd yn ein Llwybr Trawsnewid ac atodir dadansoddiad o'n cyrhaeddiad yn erbyn allbynnau a deilliannau'r cynllun hwnnw yn Atodiad 1.

# LLWYBR TRAWSNEWID PARTNERIAETH OGWEN

| Cyd-destun | Gweithgareddau | Allbynnau | Deilliannau Byr Dymor | Impact Hir Dymor |
|---|---|---|---|---|
| **CREU BUDD CYMUNEDOL** | | | | |
| **CYNNAL CYMUNED GYNHWYSOL**<br><br>Yn ôl arolwg cymunedol 2020, roedd 82% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn perthyn i'r gymuned.<br>Roedd 83% o ymatebwyr hefyd yn teimlo i raddau bod pobl yna i'w helpu os oes angen.<br><br>Dim ond 8% o ymatebwyr arolwg cymunedol 2020 oedd dan 25 oed. | Cynnal swyddfa Ogwen ar y Stryd Fawr fel pwynt cyswllt ar gyfer 3 Chyngor Cymuned y dalgylch.<br><br>Darparu gwasanaeth clercio i'r 3 chyngor cymuned.<br><br>Datblygu cyfleon gwirfoddoli amrywiol trwy brosiectau Dyffryn Gwyrdd, Siop Ogwen a Chadwyn Ogwen.<br><br>Ymgynghori â pobl ifanc a darparu profiadau gwaith, prentisiaethau, cyflogaeth a phrofiadau gwirfoddoli amrywiol iddynt. | 1300 o ymweliadau gan drigolion i swyddfa Ogwen bob blwyddyn.<br><br>Gwasanaeth clercio o safon i 3 chyngor cymuned.<br><br>Trefn recriwtio, cofnodi a chefnogi gwirfoddolwyr mewn lle.<br><br>3 o bobl ifanc (16-24 oed) yn gwirfoddoli/gweithio efo Partneriaeth Ogwen bob blwyddyn. | Mwy o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli a chyfrannogi yn Nyffryn Ogwen.<br><br>Cyswllt agosach rhwng y gymuned a'r 3 Chyngor Cymuned lleol.<br><br>Mwy o gyfleoedd gwaith i bobl ifanc yn eu cymunedau a mwy o arweinwyr cymunedol. | Cyfranogiad uwch gan ein cymuned a phobl ifanc mewn prosiectau datblygu cymunedol a democratiaeth lleol.<br><br>Iechyd a Lles ac ymdeimlad o berthyn yn cynyddu yn ein cymuned. |
| **ATAL TLODI AC UNIGEDD**<br><br>Mae tair o wardiau DO ymhlith y 25% mwyaf difreitiedig yng Nghymru<br><br>Mae 1458 o ddefnyddwyr i'r banc bwyd lleol rhwng mis Mawrth 2020 a Mai 2021.<br><br>Nid oes gan 26.6% o drigolion lleol fynediad at gar a mae cludiant yn broblem iddynt<br><br>7.2% o drigolion y dyffryn yn byw mewn tlodi tanwydd o gymharu a cyfartaledd Cymru o 2.3% | Datblygu cynllun a Hwb Dyffryn Gwyrdd i atal tlodi yn Nyffryn Ogwen yn cynnwys prosiectau penodol i fynd i'r afael a thlodi tanwydd, tlodi bwyd a thlodi trafnidiaeth.<br><br>Datblygu Banc Bwyd a Chynllun Rhannu Bwyd Dyffryn Ogwen trwy ddosbarthu bwyd a chydlynu tim o wirfoddolwyr.<br><br>Datblygu Cynllun Cyfaill Cymunedol i ddanfon prydau poeth, lleihau unigedd a hyrwyddo cynhwysiant digidol.<br><br>Sefydlu cynllun cludiant cymunedol gwyrdd fydd yn cludo trigolion mewn tlodi trafnidiaeth i apwyntiadau meddygol, gwaith a chymdeithasol. | Cyfeirio 300 o drigolion at wasanaethau cymorth Dyffryn Gwyrdd ac asiantaethau eraill bob blwyddyn<br><br>1000 o becynnau cymorth bwyd yn cael eu rhannu bob blwyddyn.<br><br>1000 o brydau Cyfaill Cymunedol yn cael eu darparu bob blwyddyn.<br><br>100 o deithiau blynyddol yn y cerbyd cymunedol | Trigolion mwyaf bregus ein cymuned yn cael cymorth ychwanegol i'w helpu allan o dlodi ac unigedd. | Llai o dlodi yn Nyffryn Ogwen gyda llai o bobl yn gorfod defnyddio'r banc bwyd a llai o bobl mewn tlodi trafnidiaeth.<br><br>Cydweithio agosach gyda asiantaethau eraill i ddarparu cefnogaeth i drigolion sy'n dioddef tlodi ac unigedd. |

| Cyd-destun | Gweithgareddau | Allbynnau | Deilliannau Byr Dymor | Impact Hir Dymor |
|---|---|---|---|---|
| **CREU BUDD AMGYLCHEDDOL** | | | | |
| **PROSIECTAU TYFU CYMUNEDOL A GWIRFODDOLI AMGYLCHEDDOL ER BUDD LLESIANT**<br><br>Mae nifer o brosiectau tyfu cymunedol yn y dyffryn ac awydd i blannu mwy at ddibenion atal tlodi bwyd a llesiant. | Prosiect Dyffryn Gwyrdd i arwain sesiynau llesiant a'r amgylchedd yn cyfuno iechyd corfforol a gweithredu amgylcheddol (e.e. Sesiynau Efeicio a Sesiynau Plannu Cymunedol)<br><br>Ardaloedd gwyrdd cymunedol newydd i gael eu adnabod a'u datblygu. | 50 o sesiynau llesiant a'r amgylchedd wedi eu cynnal.<br><br>3 ardal werdd gymunedol wedi eu datblygu a gardd Llys Dafydd wedi ei adfywio'n natur gyfeillgar. | Trigolion mwyaf bregus ein cymuned yn cael cymorth i ddod allan o dlodi tanwydd.<br><br>Mwy o gyfleoedd gwirfoddoli amgylcheddol yn dod a buddion llesiant ac amgylcheddol.<br><br>Mwy o ardaloedd gwyrdd yn cael eu cynnal yn lleol. | Ol troed carbon y Dyffryn yn lleihau.<br><br>Cydweithio agosach gydag asiantaethau eraill sy'n ceisio atal tlodi tanwydd a hyrwyddo effeithlonrwydd ynni. |
| **TACLO NEWID HINSAWDD**<br><br>Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd<br>Atal newid hinsawdd yn bwysig i 81% o'r ymatebwyr.<br><br>Roedd 87% o'r ymatebwyr yn cytuno bod gennym gyfle i greu amgylchedd a chymuned gynaliadwy. | Prosiect GwyrddNi i ddechrau yn 2021 gyda bwriad i ddatblygu Cynulliad Newid Hinsawdd yn Nyffryn Ogwen.<br><br>Prosiectau amgylcheddol newydd yn cael eu sefydlu yn cynnwys bws gwennol trydan a cherbyd trydan cymunedol. | Cynulliad Newid Hinsawdd wedi ei sefydlu ac yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.<br><br>Gwasanaeth bws gwennol a cherbydau trydan wedi ei sefydlu. | Pobl leol yn cydweithio i daclo newid hinsawdd<br><br>Llai o allyriadau carbon yn y Parc Cenedlaethol. | Dyffryn Ogwen yn arwain o ran datblygu cynaladwy cymunedol.<br><br>Math newydd o dwristiaid yn dod i'r ardal ac yn cefnogi'r economi leol. |
| **CREU BUDD IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL** | | | | |
| Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd 85% o ymatebwyr yn credu fod Dyffryn Ogwen yn gyfoethog o ran iaith, diwylliant a threftadaeth.<br><br>Roedd 59% yn poeni am ddyfodol y Gymraeg. | Parhau i gynnal gweithleoedd, cyfleoedd gwirfoddoli a phrosiectau cyfrwng Cymraeg yn Nyffryn Ogwen.<br><br>Parhau i gefnogi datblygiad Siop Ogwen – siop lyfrau Gymraeg a chrefftau ar y Stryd Fawr Bethesda.<br><br>Arwain prosiectau diwylliannol perthnasol e.e. dathliadau 200 mlwyddiant Bethesda<br><br>Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau lleol | 3 gweithle cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnal gan Bartneriaeth<br><br>Siop Ogwen yn parhau i fod ar agor ar y Stryd Fawr a chynyddu gwerthiant arlein ac mewn marchnadoedd lleol.<br><br>5 digwyddiad/gweithgaredd treftadaeth bob blwyddyn<br><br>50 o fusnesau yn defnyddio'r Gymraeg ar ogwen.cymru a Cadwyn Ogwen. | Mwy o weithleoedd cyfrwng Cymraeg.<br><br>Mwy o gyfleoedd i weithio yn Gymraeg<br><br>Pobl leol yn cael cyfle i ddathlu treftadaeth a diwylliant<br><br>Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan fusnesau. | Normaleiddio'r Gymraeg fel iaith gwaith<br><br>Codi hyder pobl i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gwaith.<br><br>Cynnal y Gymraeg a'r diwylliant yn lleol<br><br>Mwy o statws i'r Gymraeg ymysg y sector fusnes. |

PARTNERIAETH OGWEN

| Cyd-destun | Gweithgareddau | Allbynnau | Deilliannau Byr Dymor | Impact Hir Dymor |
|---|---|---|---|---|
| **CREU BUDD ECONOMAIDD** | | | | |
| **ADFYWIO STRYD FAWR A CHEFNOGI BUSNESAU BACH**<br><br>Mae nifer y siopau sydd wedi cau ar Stryd Fawr Bethesda ar gynnydd a busnesau bach a chanolig yn wynebu cyfnod anodd yn sgil Covid-19.<br><br>Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd 74% yn teimlo nad oedd cyfleoedd gwaith addas ar gael yn lleol a 71% yn credu nad oedd digon o gyfleoedd i ehangu sgiliau a busnes.<br><br>Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd 88% yn credu fod prynu cynnyrch lleol yn bwysig. | Prynu adeiladau gwag ar y Stryd Fawr i'w cadw mewn perchnogaeth leol a'u rhentu allan i fusnesau eraill neu gynnal prosiectau ohonynt.<br><br>Datblygu gwasanaeth Cadwyn Ogwen – gwasanaeth archebu a danfon cynnyrch lleol mewn cerbyd trydan cymunedol.<br><br>Darparu gwasanaethau cefnogi busnes ar lefel micro yn ein cymunedau.<br><br>Cynnal gwefan www.ogwen.cymru<br><br>Trefnu gweithgareddau i adfywio'r Stryd Fawr yn cynnwys digwyddiadau yn Llys Dafydd. | 90% o eiddo Partneriaeth Ogwen mewn defnydd trwy gydol y flwyddyn.<br><br>20 o fusnesau lleol yn gwerthu ar blatfform Cadwyn Ogwen.<br><br>Cydweithio neu gefnogi 30 o fusnesau lleol bob blwyddyn.<br><br>Cynyddu y nifer o fusnesau lleol sydd efo presenoldeb ar wefan www.ogwen.cymru<br><br>Cynnal 10 o ddigwyddiadau yn Llys Dafydd bob blwyddyn gan gofnodi cynnydd footfall y Stryd Fawr ar system fonitro Patrwm. | Mwy o siopau ar agor ar y Stryd Fawr.<br><br>Cynhyrchwyr lleol efo 'outlet' lleol ar-lein i'w cynnyrch.<br><br>Busnesau lleol yn tyfu a ffynnu<br><br>Mwy o bobl leol yn cefnogi'r Stryd Fawr. | Pobl leol yn cefnogi busnesau lleol.<br><br>Busnesau micro lleol yn tyfu a ffynnu.<br><br>Buddsoddwyr preifat yn agor siopau yn yr ardal. |
| **ECONOMI WERDD** | Datblygu Canolfan Cefnfaes fel Canolfan Ragoriaeth Cynaladwyedd gyda gofod byncws, datblygu economaidd a gofod amlbwrpas i'w logi allan.<br><br>Datblygu prosiectau twristiaeth Gynaliadwy a Chymunedol<br><br>Paratoi ceisiadau grant i sefydlu bws gwennol trydan fyddai'n cludo ymwelwyr o Ddyffryn Ogwen i fyny i Nant Ffrancon ac yn ol. | Canolfan Cefnfaes wedi ei adnewyddu erbyn Gwanwyn 2022.<br><br>Prosiect Twristiaeth Gymunedol Dolan wedi ei ddatblygu erbyn Gwanwyn 2022.<br><br>Cynllun Bws Gwennol Trydan wedi ei sefydlu erbyn 2022. | Ased cymunedol wedi ei uwchraddio er budd ein cymuned, amgylchedd ac economi.<br><br>Cymunedoli'r sector dwristiaeth yn lleol a lle'n bosibl, perchnogi rhai asedau twristaidd.<br><br>Lleihau problemau parcio yn Nant Ffrancon a chynyddu'r budd economaidd lleol gan dwristiaid i'r ardal. | Cryfhau'r budd cymunedol ac amgylcheddol o dwristiaeth. |

PARTNERIAETH OGWEN

Partneriaeth Ogwen

# Staff, Pwyllgor Rheoli ac Aelodau Bwrdd

Prif Weithredwr – Meleri Davies
Dirprwy Brif Weithredwr a Rheolwr Gweinyddol – Donna Watts
Clerc a Swyddog Gweinyddol – Bethan Griffith
Clerc – Caroline Jones
Rheolwr Adnoddau Dynol a Chyllid Grantiau – Lliwen Morris
Gofalwr Eiddo – Dylan Jones
Gyrrwr Cymunedol – Colin Jeffreys
Gyrrwr Cymunedol – Efan Thomas
Rheolwr Prosiect Gwaith Ymgynghorol – Cynan Jones
Rheolwr Dyffryn Caredig – Huw Davies
Gyrrwr Cymunedol – Dewi Roberts
Swyddog Gweinyddol a Marchnata – Menna Thomas
Cyfaill Cymunedol – Linda Brown
Cydlynydd Gwirfoddolwyr - Anna Sethi
Warden Ynni – Ianto Shea
Swyddog Cynnal – Morgan Griffith
Rheolwr Hwb Ogwen – Marie Hodson
Hwylusydd Cymunedol GwyrddNi – Chris Roberts
Mentor Marchnata Cymunedol – Abbie Jones
Rheolwr Prosiectau Economi Leol – Robyn Meredydd
Swyddog Cefnogi Prosiectau – Esme Sethi

Wedi gadael i swyddi newydd yn ystod y cyfnod -

Swyddog Llesiant a'r Amgylchedd – Judith Kaufmann
Cydlynydd Beics Ogwen – Tom Simone
Swyddog Cadwyn Ogwen a Pantri Pesda – Lucinda Enston
Cydlynydd Prosiect Petha – Catrin Wager
Swyddog Cefnogi Prosiect Petha – Kerry Walters
Swyddog Datblygu Siop Ogwen – Elen Williams

**Cyfarwyddwyr Partneriaeth Ogwen**

Dafydd Meurig
Einir Williams
Rheinallt Puw
Cyngor Cymuned Bethesda (Cynrychiolir gan Neville Hughes, Dyfrig Jones, Michael
Williams, Bleddyn Williams a Elin Prysor)
Cyngor Cymuned Llanllechid (Cynrychiolir gan Jen Morris, Lowri Evans)
Cyngor Cymuned Llandygai (Dafydd Owen a Mair Owen Pierce)

## Pwyllgor Rheoli

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn ddirprwyaeth o Fwrdd llawn Partneriaeth Ogwen ac yn gynrychioladol o'r tri chyngor cymuned lleol. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod bob deufis i fonitro rhaglen waith Partneriaeth Ogwen. Y Pwyllgor Rheoli yw:

Neville Hughes – Cynghorydd Cymuned Bethesda
Dafydd Meurig – Cadeirydd Partneriaeth Ogwen a Chynghorydd Sir
Jen Morris – Cynghorydd Cymuned Llanllechid
Dyfrig Jones – Cynghorydd Cymuned Bethesda
Einir Williams – Cynghorydd Sir
Mair Pierce – Cynghorydd Cymuned Llandygai
Rheinallt Puw – Cynghorydd Sir




Llun rhai o Staff a Chyfarwyddwyr Partneriaeth Ogwen yn nathliad 10 oed y cwmni ym mis Gorffennaf 2023

# Cynnal Gymuned Gynghwysol

Mae helpu ein cymuned yn greiddiol i holl weithgarwch Partneriaeth Ogwen a mae'n gwasanaethau cymunedol wedi cynyddu yn 2023.




## Cynghorau Cymuned

Mae Partneriaeth Ogwen yn darparu gwasanaeth clercio i dri Chyngor Cymuned - Cyngor Cymuned Bethesda, Cyngor Cymuned Llandygai a Chyngor Cymuned Llanllechid. Mae'r gwaith clercio yn cynnwys trefnu, paratoi dogfennau a chofnodi yng nghyfarfodydd y Cyngor, delio â gohebiaeth ac ymholiadau gan y cyhoedd a rheoli cyllid ar ran y Cynghorau. Mae'r Clercod yn arwain hefyd gyda gwaith ychwanegol megis cydlynu trefn taliadau pori Pwyllgor Mynydd Llanllechid a threfnu Is-bwyllgorau Cyllid y cynghorau. Darperir y gwasanaeth gan dîm o staff proffesiynol i sy'n darparu gwasanaeth o safon uchel i'r cynghorau. Arweinir y gwasanaeth gan Donna Watts gyda Bethan Wyn Roberts yn clercio i Gyngor Cymuned Bethesda a Chyngor Cymuned Llandygai a Caroline Jones yn clercio i Gyngor Cymuned Llanllechid.

Gyda chefnogaeth Cyngor Cymuned Bethesda a Llandygai, cyflogir Morgan Griffith hefyd fel Swyddog Cynnal i gasglu sbwriel yn yr ardal.

Yn ogystal â'r gwaith clercio, mae'r clercod wedi cefnogi gwelliannau i barc chwarae Pant Dreiniog a Rachub, cynorthwyo gyda gosodiad CCTV a gosod arhosfannau bws newydd yn ystod y flwyddyn.



Morgan Griffith - Swyddog Cynnal a ariennir gan Gyngor Cymuned Bethesda a Llandygai.

## Swyddfeydd Partneriaeth Ogwen

Mae gan Bartneriaeth Ogwen yn awr 4 gweithle/man gwaith i staff. Mae rhain yn cynnwys Swyddfa Partneriaeth Ogwen, Swyddfa Dyffryn Gwyrdd, Hwb Ogwen a swyddfa newydd yng Nghanolfan Cefnfaes. Mae staff bellach yn gweithio o'n swyddfeydd yn bennaf. Mae ymwelwyr a'r swyddfeydd yn parhau'n gyson ac yn amrywio o ymholiadau gan gynhgorwyr cymuned, ymholiadau am yr heddlu, ceisiadau am gymorth neu ymholiadau am wasanaethau.

## Gwirfoddoli

Mae gan Bartneriaeth Ogwen dros 84 o wirfoddolwyr sefydlog sy'n helpu gyda phrosiectau ymarferol y Bartneriaeth. Mae gennym hefyd gynghorwyr sir a chymuned sy'n goruchwylio ein gwaith ar Bwyllgor Rheoli Partneriaeth Ogwen. Rydym hefyd yn cydweithio gyda'r ysgolion lleol i gynnig profiadau gwirfoddoli ystyrlon i blant a phobl ifanc lleol. Mae 56 o blant cynradd wedi cefnogi gwaith gwirfoddol gyda dros 25 o wirfoddolwyr o'r ysgolion uwchradd yn gwirfoddoli fel rhan o brosiectau fel Bro Ogwen a Gwobr Dug Caeredin. Mae'r profiadau gwirfoddoli yn amrywio o gasglu sbwriel, golchi dillad at brosiect ailgylchu gwisgoedd ysgol, coginio yn sesiynau bwyd Swpar Chwaral a gwirfoddoli gyda Siop Ogwen. Mae Cydlynydd Gwirfoddolwyr Dyffryn Gwyrdd wedi arwain ar ein gwaith yn cefnogi gwirfoddolwyr yn ystod 2023 gan lwyddo i

- Cynnig 1042.5 awr o wirfoddoli i drigolion lleol yn ystod y flwyddyn.

- Casglu 103 bag o sbwried wedi ei gasglu yn ystod 12 sesiwn gasglu sbwriel yn ystod y flwyddyn

- 8 o sesiynau i deuluoedd wedi eu trefnu gyda 176 o fynychwyr dros y cyfnod.

# Angharad



Fe wnes i symud o Fangor i ardal Dyffryn Ogwen dros 20 mlynedd yn ôl gyda fy nheulu i fagu'r plant a dwi wedi byw yma ers hynny. Rwyf wedi bod yn gwirfoddoli gyda Swpar Chwaral ar brynhawniau Dydd Mercher. Rwy'n hunan gyflogedig ac roeddwn yn chwilio am rywbeth i wneud i gyfrannu at y gymuned.

Rwy'n mwynhau coginio ac yn hoff o greu ryseitiau gyda unrhyw beth sydd yn y cwpwrdd! Sydd yn wych wrth i mi wirfoddoli gyda Swpar Chwaral i greu prydau maethlon gyda rhoddion o fwyd gan Glwb Bwyd Dyffryn Gwyrdd. Mae gwirfoddoli yn y gymuned nid yn unig wedi helpu fy Nghymraeg ond mae hefyd wedi fy helpu i greu cysylltiadau newydd yn lleol ac adnabod yr holl bethau gwych sydd yn digwydd yn ein cymuned. Mae gwirfoddoli yn dod gyda chymaint o gyfleoedd yn cynnwys hyfforddiant i ddatblygu sgiliau newydd.

Dwi'n falch iawn o'r cyfle i wirfoddoli. Mae'n braf iawn cael creu cysylltiadau a chael bach mwy o fywyd cymdeithasol!
Mae'r cyfle hefyd wedi rhoi amser i mi i ffwrdd o fy musnes ac wedi rhoi cyfle i mi feddwl am yr hyn rydw i eisiau ei wneud yn y dyfodol.


PARTNERIAETH OGWEN
HWB OGWEN
DYFFRYN GWYRDD



# Natasha

Rwy'n dod o Kiyv, Wcráin yn wreiddiol a symudais i ardal Dyffryn Ogwen ym mis Gorffennaf 2022 yn sgil y rhyfel.

Fe wnes i glywed am gyfleoedd gwirfoddoli gyda'r Hwb gan fy ngweithiwr cymdeithasol, ac yn falch iawn o hynny. Rwy'n astudio yng Ngholeg Menai 4 diwrnod yr wythnos ac yn gwirfoddoli gyda Clwb Bwyd Partneriaeth Ogwen ar brynhawniau Dydd Gwener.

Mae gwirfoddoli gyda phawb yn y clwb bwyd wedi helpu fy Saesneg ond hefyd rwy'n dysgu ambell i air Cymraeg. Dwi hefyd eisiau dysgu Rwsieg i bawb. Mae'r cyfle yma i ymarfer fy Saesneg a Chymraeg yn help mawr i fy hyder wrth siarad.

Mae'r tîm yn gefnogol iawn ac yn fy helpu gydag unrhyw heriau dwi'n wynebu, dwi'n edrych ymlaen at ddod draw a gweld pawb bob wythnos, nid yn unig y tîm Clwb Bwyd, ond y mynychwyr hefyd. Dwi'n dechrau dod i adnabod pobl yn y gymuned ac mae pawb mor gyfeillgar a chlên. Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i wirfoddoli yng nghymuned Dyffryn Ogwen.



# Alun a Jan

Mae'r ddau ohonom yn wreiddiol o ardal Dyffryn Ogwen ac yn falch o gefnogi prosiectau cymunedol yr ardal.

Mae'n bleser cael gwirfoddoli yn ein cymuned, cyfarfod pobl newydd a hen gyfeillion! Mae'r gwaith gyrru cymunedol hefyd wedi golygu ymweld â llefydd newydd yn ein bro. Ein prif reswm dros wirfoddoli yw i fod o gymorth i drigolion yr ardal a chael mwynhau cyfarfod pobl newydd.

Rydym wedi gwirfoddoli gyda sawl prosiect dros y blynyddoedd yn cynnwys gyrru i brosiect Cadwyn Ogwen, helpu yn siop gymunedol Siop Ogwen a helpu efo sesiynau casglu sbwriel. Mae Al hefyd yn gwirfoddoli gyda'r Gofod Gwneud oherwydd ei brofiad o weithio gyda'r peiriannau ac hefyd ei brofiad yn rhedeg busnes gwaith llechi ei hun. Mae'r gwaith gwirfoddol gyda'r Gofod Gwneud wedi cynnwys cynnal sesiynau creu gyda'r ysgolion lleol.

Mi fysa Jan a finnau'n awgrymu i unrhyw un wirfoddoli. Rydym yn mwynhau yn arw ac mae'n gyfle gwych i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned.

## Cyfleoedd i Bobl Ifanc

Mae cynnig cyfleoedd gwaith i bobl leol yn rhywbeth rydym yn ymhyfrydu ynddo a rydym wedi manteisio ar gynlluniau fel Llechi, Glo a Chefn Gwlad, Kickstart a Byw a Bod i gyflogi pobl ifanc dros y blynyddoedd. Bellach, mae 4 o staff y Bartneriaeth dan 30 mlwydd oed gyda phob un ohonynt wedi ymwneud â'r Bartneriaeth trwy waith gwirfoddol neu leoliadau gwaith cyn ymuno efo'r tîm fel aelodau gwerthfawr o'r staff. Yn ystod y flwyddyn mae'n Cydlynydd Gwirfoddolwyr wedi creu profiadau gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli i 25 o bobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys sesiynau Dug Caeredin ble bu pobl ifanc yn helpu i gynnal nosweithiau Swpar Chwaral, sesiynau Bro Ogwen a sesiynau yn y Gofod Gwneud. Mae'r cydweithio gyda'r ysgolion yn parhau gyda 10 o ddisgyblion blwyddyn 7-9 yn dod i sesiynau gwirfoddol dan gynllun Bro Ogwen.

# Atal Tlodi

Y datblygiad pennaf o ran ein prosiectau atal tlodi yn 2023 yw sefydlu Hwb Ogwen – hwb cymunedol sy'n darparu cyngor i drigolion lleol i atal tlodi. Gwneir hyn mewn sesiynau galw heibio ddwywaith yr wythnos ble mae trigolion lleol yn gallu cael pecynnau bwyd argyfwng, talebau tanwydd a chyngor arbed ynni ac arbed arian.




Canolfan Hwb Ogwen ar Stryd Fawr Bethesda

Ers agor yr Hwb ym mis Chwefror, rydym wedi cyflawni'r canlynol –

- 2297 o ymwelwyr i Hwb Ogwen rhwng Chwefror a diwedd Tachwedd 2023
- 1152 Pecyn Bwyd wedi ei ddosbarthu a 81 Referral pellach i Fanc Bwyd Arfon neu Fangor
- 353 Taleb Tanwydd wedi ei ddosbarthu werth £15,568
- 33 person wedi cael cyngor CAB
- 44 SIM Card
- 93 person wedi cael cyngor Gwynedd Ddigidol
- 125 teulu wedi cael Gwisg ysgol am ddim




Mae Hwb Ogwen hefyd yn arwain ar gynllun Swpar Chwaral sy'n coginio prydau maethlon i drigolion lleol bob nos Fercher. Mae'r bwyd yn cael ei goginio gan wirfoddolwyr lleol gyda chefnogaeth staff yr hwb. Rydym hefyd yn defnyddio rhoddion bwyd lleol, cyfraniadau o gynllun Fareshare a rhoddion ariannol gan fudiadau i ariannu costau'r cynllun.

Yn ystod 2023, mae'r sesiynau wythnosol wedi creu 663 o brydau poeth. Erbyn hyn mae rhwng 25-35 o bobl yn dod yn rheolaidd bob wythnos.



## Gweithio gyda Partneriaid

Yn ogystal â gwasanaeth gan staff Hwb Ogwen, mae'n staff wedi trefnu sesiynau gan Cyngor ar Bopeth, Citizens Online a Gwaith Gwynedd.

Mae'r cyllidwyr canlynol wedi cyfrannu at gostau rhedeg Hwb Ogwen yn ystod 2023 – Ynni Ogwen, Stad Penrhyn, Cyngor Gwynedd, Betsi Cadwaladr.

## Ymgyrch Gwisgoedd Ysgol

Yn haf 2023, arweiniodd Hwb Ogwen a'n Cydlynydd Gwirfoddolwyr ymgyrch i gasglu gwisgoedd ysgol i'w ailgylchu yn ein cymuned. Daeth gwirfoddolwyr ynghyd i gasglu, golchi a rhoi trefn ar gyfraniadau gan ein cymuned cyn trefnu sesiynau penodol i rannu'r gwisgoedd. Roedd hyn yn gyfle i arbed arian i'n cymuned ond hefyd i leihau gwastraff ac annog ein cymuned i ail-ddefnyddio a rhannu adnoddau.



# Warden Ynni

Gyda chefnogaeth Ynni Ogwen a phrosiect Sero Net Gwynedd, mae Partneriaeth Ogwen wedi parhau i gyflogi Ianto Shea fel Warden Ynni. Mae'n Warden yn gweithio yn Hwb Ogwen ac yn trefnu apwyntiadau i roi cyngor ynni i'n cymuned ar faterion megis tlodi tanwydd a budd-daliadau. Yn ystod y flwyddyn hefyd, mae'r Warden Ynni wedi ennill profiad a chymhwystreau megis y gallu'i ddynodi Tystysgrif Perfformaid Amgylcheddol (EPC). Gyda'r Hwb ar agor ddeuddydd yr wythnos enillwyd ymddiriedaeth y gymuned yn ein gwasanaethau a hynny drwy gynnig cyngor a chefnogaeth yn yr Hwb ac drwy ymweliadau cartref.

Yn ogystal bu'r Warden Ynni, drwy weithio ar y cyd gyda phrosiectau Sero-Net Gwynedd a Citizens Online yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau eraill megis mynediad at 'dariff cymdeithasol' ar gyfer mynediad i'r rhyngwyd am bris gostyngol  a thalebau tanwydd drwy'r Fuel Bank Foundation. Yn ddiweddar, a gyda'r tywydd wedi oeri, mae'r elfen honno o waith y Warden ar gyfer cefnogi trigolion sydd ar 'pre-pay meter' wedi cynyddu'n sylweddol – adlewyrchiad o'r creisis costau byw yn effeithio'n cymuned.

Esiampl arall da o gydweithio oedd derbyn cefnogaeth gan Elusen Ogwen ar gyfer creu Pecynnau Teulu – bag o adnoddau a phamffledi'n rhoi cyngor a chefnogaeth ar sut i arbed ynni'n y cartref. Wrth rannu'r pecynnau gyda wyth ysgol yn lleol ymgysylltwyd gyda bron i 1,000 o bobl a chodi ymwybyddiaeth sylweddol am wasanaethau'r Warden Ynni a'r Hwb Cymunedol.

Yn ystod 2023, mae'r Warden Ynni wedi cefnogi 539 o gleientiaid a dosbarthwyd 229 Taleb Tanwydd.

# Cyfaill Cymunedol

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau i gyflogi Cyfaill Cymunedol sy'n rhoi cefnogaeth i unigolion hŷn y Dyffryn. Mae'r gwaith da a wnaed ers y cyfnod y clo wedi parhau gyda phrydau cynnes yn cael eu danfon yn wythnosol i drigolion gan roi cyswllt wythnosol personol pwysig a hwb sylweddol i waith Caffi Coed y Brenin. Mae'r Cyfaill yn arwain ar gysylltu gyda a chefnogi trigolion sy'n ynysig ac unig. Yn ystod y flwyddyn, cefnogwyd Clwb y Dyffryn wrth iddynt gynnal eu boreuau coffi rheolaidd gan drefnu siaradwyr a chludiant ar gyfer yr aelodau. Yn ogystal bu'r Cyfaill wrthi'n brysur yn ymweld a boreau coffi eraill, gweithio gyda Plas Ogwen ac ymweld ag unigolion yn eu cartrefi a chefnogi trigolion i fynd am dro llesol yn ystod tywydd braf y gwanwyn a'r haf. Cynhaliwyd 20 digwyddiad cymunedol yn ystod y cyfnod,gyda 331 o fynychwyr a bu 29 sesiwn Cadw'n Heini gyda chyfanswm o 261 o gyfranogwyr. Yn ystod y cyfnod yma rydym wedi gweithio gyda -

Age Cymru, Hwb ogwen, Pontio, Trafnidiaeth Cymru, Plas Ogwen, Bws Barabara, Caffi Coed y Brenin, Dimentia Actif Gwynedd, Cyngor Gwynedd, Neuadd Ogwen, Tai Chi Cymru, Plas Ffrancon, Adra, Esgobiaeth Eglwys yng NGhymru, Capel Carmel, Marchnad Ogwen, Capel Jeriwsalem, Gwasanaethau Ambiwlans, Ysgol Penybryn, Ysgol Dyffryn Ogwen, Mantell Gwynedd, Prynhawn Da, Arfon Access, Capel Talybont, Canolfan Gerdd William Mathias.

# CHRISTINE IRIS JONES
## RACHUB, BETHESDA



Mae Christine Iris Jones sydd yn hannu o Fethesda yn 78 oed yn byw yn Rachub ac wedi bod yn gaeth i'r tŷ ers 9 mlynedd ac yn teimlo'n rhwystredig iawn ac yn unig. Mae Linda Brown drwy'r gwaith Cyfaill Cymunedol wedi bod yn ymweld â Christine bob wythnos. Mae'n cynorthwyo Christine, gyda'i gweithiwr cymdeithasol, gyda'r Asiantaeth Dai ar wellianau i'r ty er mwyn gwella hygyrchedd ac wedi cyflwyno rhodd iddi yn ddiweddar - bwrdd adar gan y Sied Cyn-Filwyr er mwyn i Christine gael gwylio'r adar bach drwy'r ffenest. Mae Christine yn ddiolchgar i Linda am ymweld â hi bob wythnos - mae'r ymweliadau yn ei gwneud hi yn hapus ac yn symud ei meddwl.

# NERYS OWEN
# PLAS OGWEN, BETHESDA



Mae Nerys Owen (o Fangor yn wreiddiol) ond sydd erbyn hyn yn preswylydd yng nghartre'r henoed ym Methesda - Plas Ogwen.

Yn wythnosol mae Linda Brown, Cyfaill Cymunedol, yn mynd â Nerys Owen, sydd yn breswylydd ym Mhlas Ogwen am dro bach o gwmpas ardal Bethesda. Mae Nerys yn ei helfen yn cael cerdded y fro. Yn ddiweddar aeth Linda a Nerys am dro i Barc Meurig gan nad oedd hi erioed wedi bod yno o'r blaen meddai hi. Cafodd fodd i fyw yn gweld y gwaith celf arbennig o gymeriadau Llyfr Mawr y Plant – sydd wedi eu lleoli mewn mannau o gwmpas y coed e.e. Wil Cwac Cwac, Ifan Twrci Tenau, Sion Blewyn Coch ayb. Roedd gweld y lluniau yn mynd a Nerys yn ôl i'w phlentyndod. Roedd clywed Nerys, sydd bron yn 80 oed yn dweud bod hi wedi mwynhau'r 'dro' yn fawr iawn yn codi calon rhywun.

# Trafnidiaeth Gymunedol

Mae fflyd o bedwar cerbyd y Bartneriaeth a ‘r beics trydan ac hygyrch wedi parhau’n brysur dros y 12 mis diwethaf. Defnyddiwyd Bws Ogwen rhwng Ebrill a Hydref ar gyfer gwasanaeth Bethesda – Llyn Ogwen, gyda teithiau ddwywaith y dydd hefyd i Gapel Curig. Cafodd y gwasanaeth dderbyniad da ac wrth weithio mewn partneriaeth gyda’r gwasanaeth T10 gan gyfrannu at leihau’r nifer cerbydau a oedd yn parcio ar yr A5. Yn ogystal, defnyddwyd y bws ar gyfer defnydd cymunedol ehangach ym misoedd y gaeaf – teithiau pleser, clybiau chwaraeon ac ysgolion lleol.

Mae ‘Efan’ y cerbyd 6 sedd hygyrch sydd ar gael i fynd ag aeloedau o’r gymuned i apwyntiadau cymdeithasol neu feddygol wedi parhau’n brysur. Yn ystod 2023, mae Efan wedi’i ddefnyddio ar gyfer 155 o siwrneiau ac wedi teithio 13,000 o filltiroedd – hynny’i gyd heb allyriadau. Yn yr un modd, mae Carnedd y car cymunedol a leolir yn y Llyfrgell Cymunedol wedi cael cryn ddefnydd gan ein cymuned ac wedi teithio dros 10,000 o filltiroedd a hynny wrth ei wefru o baneli solar y Llyfrgell.

Yn ogystal, mae’r fan – Tryfan – yn parhau i gael ei defnyddio gan y Bartneriaeth ar gyfer prosiect Cadwyn Ogwen, ar gyfer cludo bwydydd Fareshare ac ar gyfer cario beics fel bo’r angen.

Yn ystod y cyfnod yma, mae’r elfen trafnidiaeth gymunedol o waith y Bartneriaeth wedi ennill ei blwy a chyd-weithio sylweddol wedi bod gyda phartneriaid strategol megis y Gymdeithas Drafnidiaeth Gymunedol (CTA), Cyfeillion y Ddaear a Sustrans Cymru . Bu’r Bartneriaeth yn cyflwyno yng Nghynhadledd Cymru y CTA a chyfrannu i ddigwyddiad Sustrans a Llywodraeth Cymru yn ogystal a chyflwyniad ar ein gwaith yn Eisteddfod Boduan 2023.

Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, derbyniwyd cadarnhad fod cais a wnaed gan bartneriaeth Dolan i Gronfa Ffyniant Bro wedi llwyddo yn ogystal a chais y Dyffryn Caredig i Grona Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae hyn yn golygu y bydd tîm sefydlog o staff yn arwain ein darpariaeth cludiant cymunedol dros y ddwy flynedd nesaf.




Colin ac Evan - Dau o’n gyrrwyr cymunedol.

# TRAFNIDIAETH WERDD




Rwy'n defnyddio car llogi Co-Wheels ddwywaith y mis ar gyfartaledd. Rwy'n gweithio'n llawrydd mewn llawer o lefydd gwahanol ac yn defnyddio'r car yn bennaf ar gyfer drafeilio i'r gwaith mewn ardaloedd lle mae trafnidiaeth cyhoeddus yn annigonol neu mae'n rhaid i mi fod yn y gwaith yn arbennig o gynnar. Mae fy ngwraig a minnau yn berchen ar un cerbyd rhyngom ac os yw hi'n defnyddio ein cerbyd, rwy'n defnyddio'r car llog. Mae hyn yn golygu y gallwn weithredu fel bod yn berchen ar yr un cerbyd rhwng fy ngwraig a minnau, gan leihau ein costau a'n heffaith amgylcheddol.

Rwyf hefyd yn defnyddio trafnidiaeth cyhoeddus, ond mae’r gwasanaeth bws ym Methesda yn aml yn wael ac yn cymryd llawer o amser ac mae llogi’r car yn ddewis amgen hyblyg, chôst-effeithiol.

Rwyf wedi defnyddio’r car i gymudo i Lerpwl ac i Wrecsam heb angen ailwefru’r batri ar gyfer y naill daith na’r llall. Nodir amrediad tâl batri llawn fel 200 milltir a chadarnhaf fod hynny'n gywir.

Mae hefyd yn gar cyfforddus a llyfn iawn i'w yrru. Mae’n gerbyd safonol sy’n cynnig gwasanaeth gwerthfawr i’n cymuned. Diolch i bawb sy'n gweithio i'w gadw yn ei le.

PARTNERIAETH OGWEN

DYFFRYN GWYRDD

**www.partneriaethogwen.cymru**
**01248 602131**
**cludiant@ogwen.org**

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Beics Ogwen

Yn dilyn cefnogaeth gan Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru parhawyd gyda'r gwaith o gynnig adnoddau a chyfleusterau beicio i'n cymuned. Cynhaliwyd sesiynau gydag ysgolion y Dyffryn a gyda'r gymuned ehangach. Cynhaliwyd naw o ddigwyddiadau penodol yn ogystal â rhedeg sesiynau gweithdy beics wythnosol a cafwyd cryn lwyddiant gyda sesiynau fel sesiynau beicio merched. Un o uchafbwyntiau'r teithiau oedd taith feics trydan ar gyfer Pobl i Bobl a noddwyd gan Gyngor Dinas Bangor – taith i'n cyfeillion o'r Wcrain o Bier Bangor i'r Clwb Rygbi ac yn ôl.

Datblygiad arall sylweddol oedd creu partneriaeth gyda Cwmni Byw'n Iach, Chwaraeon Anabledd Cymru a Chlwb Rygbi Bethesda. Drwy weithio ar y cyd a gyda'r Clwb yn darparu'r lleoliad, dennwyd arian ar gyfer cynhwysydd llong a beics hygyrch ar gyfer cymuned Dyffryn Ogwen. Gyda'r lleoliad ar ymyl Lôn Las Ogwen dyma lecyn arbennig ar gyfer teithiau beiciau hygyrch, addasedig a thrydan.

Cysylltwyd gyda dros 350 o bobl yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn er i'r prosiect Teithio Llesol ddod i ben ddiwedd Mawrth 2023. Defnyddiwyd adnoddau'r Dyffryn Gwyrdd i barhau'r gwaith ac erbyn hyn mae parhad prosieict Beics Ogwen yn rhan ganolog o waith prosiect Dyffryn Caredig.



Mae mwy o wybodaeth am ddarpariaeth cynllun Beics Ogwen ar gael ar- https://beicsogwen.co.uk/

# Amgylchedd

## Y Clwb Bywd

Gyda chefnogaeth cynllun Fareshare, mae tîm Dyffryn Gwyrdd wedi parhau i rannu bwyd fyddai wedi mynd i wastraff yn ein cymuned. Yn dilyn ymgynghori gyda defnyddwyr penderfynwyd adolygu'r system rannu bwyd a chodi ffi am bob bag wythnosol. Bellach, defnyddir cyfran o'r bwyd Fareshare tuag at waith Hwb Ogwen – yn benodol nosweithiau Swpar Chwaral a phecynnau bwyd argyfwng ond mae gweddill y cynnyrch yn cael eu pecynnu i aelodau'r Clwb Bwyd sy'n dod i gasglu eu bagiau bob dydd Gwener. Mae bag yn £4.50 ac am y pris hwnnw mae'r aelodau yn cael gwerth o leiaf £10 o fwydydd gwahanol gan helpu i leihau gwastraff. Mae'n apelio at drawsdoriad eang o'r gymdiethas, yn deuluoedd, pobl sengl, yr ifanc a'r hyn ac i bobl mewn cyflogaeth a phobl di-waith. Mae'r datblygiad diweddaraf hwn bellach wedi ennill ei le yn narpariaeth y Bartneriaeth gyda dros 140 o aelodau'n cymryd rhan yn y gwaith a chyfartaledd o 30 bag yr wythnos yn cael eu rhannu. Golyga hyn fod 180kgs yr wythnos o fwyd yn cael ei arbed rhag mynd yn wastraff. Mae'r arbediad ariannol yn leiafswm o £5 yr wythnos fesul bag, cyfartaledd 30 aelod yr wythnos, sydd yn gyfanswm o £5550 o arbedion i'r gymuned yn y flwyddyn ddiwethaf. Esiampl o'r awydd a'r brwdfrydedd newydd tuag at y cynllun yw'r grwp facebook a sefydlwyd gan un o'r aelodau'n ddiweddar i rannu ryseitiau ymysg aelodau'r clwb.

Yn ystod 2023 –

- Rhannwyd 1110 bag
- Arbedwyd 8460kgs o wastraff bwyd.
- Arbedwyd £5550 i'n cymuned

# PROSIECTAU TYFU CYMUNEDOL A GWIRFODDOLI AMGYLCHEDDOL ER BUDD LLESIANT

## Tyfu a Phlannu Cymunedol

Yn ystod y flwyddyn gyfredol parhaodd aelodau tîm Dyffryn Gwyrdd i arwain sesiynau llesiant a'r amgylchedd sy'n cyfuno iechyd corfforol a gweithredu amgylcheddol. Roedd y gwaith yma'n cynnwys sesiynau garddio, teithiau cerdded a mwy. Parhawyd gyda'r gwaith o ddatblygu rhandiroedd Gerddi Ffrancon mewn partneriaeth a Chwmni Byw'n Iach a'n trigolion lleol. Ychwanegwyd chwe rhandir newydd yn ystod y flwyddyn ac erbyn hyn mae'r 24 wedi'u cymryd.

Bellach, mae'r lleoliad yn adnodd arbennig ar gyfer ein cymuned sy'n darparu bwyd iach, maethlon ar gyfer teuluoedd lleol. Bu'n flwyddyn arDderchog hefyd wrh i griw brwd ddatblygu'r Ardd Gymunedol ac un o'r uchafbwyntiau oedd sesiwn gymdeithasol gyda phaned a chacen gyda'r Carneddau yn gefndir godidog ar ddiwedd prynhawn braf.



Datblygwyd hefyd ar y gwaith yn Llys Dafydd gyda chryn dipyn o blannu'n digwydd yn ystod y sesiynau garddio rheolaidd gyda'n Swyddog Llesiant Amgylcheddol a'r criw gwirfoddolwyr. Un o'r uchafbwyntiau heb os oedd sesiwn wasgu afalau gyda chwmni Afallon yn arwain sesiwn ar y cyd a GwyrddNi lle gwasgwyd sacheidiau o gynnyrch gorau'r Dyffryn i greu bron i 100 litr o sudd afal bendigedig.

Yn ogystal, gyda chefnogaeth ariannol gan Wasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd, a chefnogaeth ymarferol Sied y Cyn Filwyr crewyd adnodd newydd ar gyfer ein cymuned – gardd lesiant a synhwyrau yn Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen. Gyda tipyn o weledigaeth, arbenigedd plannu a thipyn o fon braich gweddnewidwyd ardal di-ddim i fod yn ardd hyfryd a diogel sy'n groesawgar i fywyd gwyllt ac i ddefnyddwyr y Llyfrgell.



Daeth cyfnod ariannu prosiect Loteri'r Dyffryn Gwyrdd i ben ddiwedd hydref 2023 ond sicrhawyd cyllid o Gronfa Treth Tirlenwi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fydd yn ein galluogi i symud ymlaen i barhau'r gwaith da a wnaed yn sefydlu cymaint o'r gerddi, perllanau ac ardaloedd gwyrdd o gwmpas y Dyffryn.

# PETHA

Daeth cyfnod cynllun peilot Llyfrgell y Petha, partneriaeth gyda chyfeillion Dolan (Siop Griffiths Penygroes a Chwmni Bro Ffestiniog, Blaenau Ffestiniog) i ben ar ddiwedd Ebrill 2023. Er fod y peilot wedi dod i ben, mae Partneriaeth Ogwen wedi parhau i hyrwyddo'r nwyddau a chydweithio gyda Benthyg Cymru a Chyngor Gwynedd i geisio cael adnoddau i barhau gyda'r cynllun. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno cais i Gronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru am Swyddogion Economi Gylchol a chydweithio gyda'r Cyngor a Benthyg i ddatblygu parhad i'r gwasanaeth.

# Taclo Newid Hinsawdd

## GwyrddNi

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau yn bartner ym mhrosiect GwyrddNi – prosiect sydd wedi sefydlu cynlluniadau newid hinsawdd ym Mhen Llyn, Dyffryn Nantlle, Bro Ffestiniog, Dyffryn Peris a Dyffryn Ogwen. Eleni mae partneriaid GwyrddNi wedi derbyn nawdd pellach gan Gronfa Gweithredu Hinsawdd y Loteri Genedlaethol i barhau i gefnogi cymunedau i weithredu yn wyneb newid hinsawdd am bedair mlynedd arall.

Rhwng Mai 2022 a Mawrth 2023 roedd 50 o drigolion Dyffryn Ogwen yn rhan o Gynulliad Cymunedol yn ateb y cwestiwn “Sut allwn ni yn Nyffryn Ogwen ymateb yn lleol i Newid Hinsawdd?”.

Ar ôl broses o ddysgu, trafod a chael mewnbwn gan ysgolion lleol cytunodd y cynulliad ar eu Cynllun Gweithredu lleol. Mae’n llawn syniadau am sut i daclo’r argyfwng, yn cynnwys sefydlu Grid Ynni Cymunedol, creu Parc Cinetig, Tyfu Bwyd Cymunedol a chynnal Gŵyl Hinsawdd.

Rydym rwan yn gweithio gyda’r holl gymuned i wireddu’r cynlluniau yma. Bydd digwyddiadau, cyfarfodydd a gweithdai yn cael eu cynnal yn lleol yn rheolaidd. Yn barod rydym wedi cynnal Gŵyl Hinsawdd llwyddiannus fis Mai 2023 wnaeth ddenu dros 100 o bobl i Stryd Fawr Bethesda, ac wedi cychwyn gwneud gwaith ar fapio mwsog yn yr ardal.

Mae gwaith GwyrddNi yn yr ysgolion yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o’r argyfwng hinsawdd, dysgu am ddatrysiadau lleol ac annog ac arfogi disgyblion i weithredu eu hunain.



Un o gyfarfodydd Cynulliadau Cymunedol GwryddNi

## Sero Net Gwynedd a Pioneering Places

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau yn bartner ym mhrosiect Sero Net Gwynedd. Cynllun dan arweiniad Cymdeithas Tai Adra sy'n amcanu i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ar draws Gwynedd. Mae cefnogaeth ariannol gan gynllun Sero Net Gwynedd yn cyfrannu tuag at gostau cyflogaeth Warden Ynni i Bartneriaeth Ogwen a chostau adnoddau effeithlonrwydd ynni megis bylbiau LED.

Yn ystod 2023, bu Partneriaeth Ogwen ac Ynni Ogwen yn bartneriaid ym mhrosiect Pioneering Places dan arweiniad Cyngor Gwynedd ac Energy Local. Bwriad y cynllun yw edrych ar ddulliau newydd o gyflenwi ynni yn lleol. Arianodd y prosiect adroddiad mapio potensial ynni adnewyddol y Dyffryn ac adroddiad arall yn edrych ar botensial rhwydwaith cludiant werdd. Mae gwedd 1 o'r prosiect wedi dod i ben gyda chais pellach wedi ei gyflwyno i Innovate UK am gyllid gwerth 2 filiwn i ddatblygu'r prosiect ym Methesda a Blaenau Ffestiniog.

# Iaith a Diwylliant

## Cynnal y Gymraeg

Rydym yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg yng ngweithgarddau Partneriaeth Ogwen ac yn parhau i weinyddu ein sefydliad yn y Gymraeg a'r prosiectau newydd yr ydym yn eu sefydlu. Rydym yn cynnig cyfleoedd cyflogi a gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg i bobl leol ac yn ymhyfrydu yn y ffaith bod nifer o ddysgwyr yn gwirfoddoli ac yn gwella eu Cymraeg efo ni. Yn ystod 2023 rydym wedi llwyddo gyda chais i gronfa Cymunedau Mentrus Arfor i atgyfnerthu'r economi mewn ardaloedd Cymraeg. Bydd hyn yn golygu fod gwasanaethau marchnata a chyllid cymunedol ar gael i'n cymuned trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Siop Ogwen

Er fod y siop yn endid cyfreithiol annibynnol, mae'r Bartneriaeth yn parhau i reoli gweinyddiaeth y siop ac i gefnogi'r Swyddog Datblygu o ran rheoli rhaglen waith a gweithgareddau'r siop. Mae'r siop yn cyfrannu tuag at hyfywedd y Stryd Fawr ond mae hi hefyd yn bwysig o ran hyrwyddo'r iaith a llenyddiaeth Gymraeg. Yn ogystal â gwerthu llyfrau a chrefftau, mae'r Siop hefyd yn mynd allan i'r gymuned gan gynnal gweithdai celf a stori i blant. Cynhaliwyd 5 sesiwn celf a stori yn y gymuned yn ystod 2022 yn cynnwys sesiynau Ioga i blant yng Ngerddi Ffrancon a sesiynau fel rhan o wyl Gwenllian. Gyda chefnogaeth arian Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, arweiniodd Siop Ogwen ar gynllun i baentio ffenestri siopau'r Stryd Fawr fel ymdrech i ddenu mwy o bobl i gefnogi'r Stryd Fawr.

Trefnwyd nosweithiau llofnodi llyfrau hefyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys sesiwn gyda'r awdur Dewi Prysor a digwyddiad llenyddol ar y cyd a Gwyl Ara Deg.

# Gŵyl Gwenllian

Gyda chefnogaeth Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, trefnodd Partneriaeth Ogwen weithdai, darlithoedd, gweithgareddau a theithiau cerdded i goffhau'r Dywysoges Gwenllian ym mis Mehefin 2023. Dathlu Merched y Carneddau oedd thema'r ŵyl eleni. Ddydd Sadwrn, fe wnaethom gynnal cyfres o baneli a sgyrsiau gan artistiaid ac awduron benywaidd lleol. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth banel a gynhaliwyd gan Rebecca Hardy-Griffith gydag Anna Pritchard, Ann Catrin Evans a Rhiannon Gwyn a oedd yn canolbwyntio ar sut mae eu harfer artistig yn cael ei ysbrydoli gan eu cynefin. Cafwyd hefyd sesiynau difyr iawn gydag Angharad Tomos, cyfweliad wedi ei recordio ymlaen llaw gydag Alys Conran, a thrafodaeth rhwng Annes Glynn a Manon Steffan Ros. Prynodd dros 40 o bobl docynnau i'r digwyddiad, a gynhaliwyd yn Ystafell Gymunedol yng Nghefnfaes ar ei newydd wedd. Recordiwyd y sgyrsiau i gyd ac maent ar gael ar Amam a YouTube.

Roedd yr ŵyl hefyd yn cynnwys gweithdy celf i blant a ddilynwyd gan ginio am ddim gan wirfoddolwyr Hwb Ogwen ddydd Sadwrn. Ddydd Sul, roedd taith feicio dan arweiniad a sesiwn yoga i deuluoedd yn y bore. Dilynwyd hyn gan ddigwyddiad "Cerdded a Gwehyddu" a oedd yn cynnwys taith dywys i fyny Moel Faban gan aelodau o dîm Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, gyda chyfle i ddal argraffiadau o'r dirwedd naturiol ar wyddiau llaw fach. I gloi'r ŵyl, bu'r Parch Sarah Roberts yn arwain pererindod fel rhan o wasanaeth yr Eglwys Wyllt.



Sesiwn Wehyddu ar Moel Faban fel rhan o Wyl Gwenllian 2023



Panel o artistiaid lleol yng Ngwyl Gwenllian 2023




Angharad Tomos yn trafod llenyddiaeth broydd y Llechi a'i chyfrolau

## Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg gan Fusnesau Lleol

Mae polisi iaith Partneriaeth Ogwen yn gwbl gadarn a rydym hefyd yn cymryd pob cyfle i annog defnydd gan fusnesau a partneriaid yn lleol. Mae hyn yn cynnwys helpu busnesau lleol i greu cynnwys dwyieithog ar gyfer cyfeirlyfr busnesau www.ogwen.cymru a thudalennau Cadwyn Ogwen ar wefan yr Open Food Network. Mae dros 50 o fusnesau ar y 2 blatfform digidol yma.

## Hyrwyddo Treftadaeth leol gyda Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

Ymrwymodd Partneriaeth Ogwen i Gytundeb Lefel Gwasanaeth un flwyddyn gyda Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau ym mis Ebrill 2023 i gyflawni prosiectau ar gyfer y Bartneriaeth yn Nyffryn Ogwen. Yn ogystal â Gŵyl Gwenllïan ym mis Mehefin, rydym wedi dechrau cyflawni nifer o brosiectau eraill.

Rydym wedi dechrau Lleisiau Lleol - prosiect hanes llafar sy'n cysylltu â prosiect Lleisiau'r Carneddau. Mae grŵp o wirfoddolwyr wedi derbyn hyfforddiant i gynnal a recordio cyfweliadau hanes llafar, ac mae'r ychydig gyfweliadau cyntaf wedi'u cynnal. Byddwn yn catalogio ac yn rhyddhau'r cynnwys ar ein gwefan ynghyd â chyfeirio at adnoddau hanes llafar eraill sydd hefyd ar gael.

Er mwyn helpu i greu'r genhedlaeth nesaf o dywysyddion lleol, mae'r grŵp o 8 o wirfoddolwyr wedi dechrau hyfforddi fel Arweinwyr Tir Isel. Yn ogystal â'r cwrs gofynnol, mae diwrnod ychwanegol o hyfforddiant penodol i ardal Dyffryn Ogwen wedi'i drefnu gyda staff y Parc Cenedlaethol a thywyswyr lleol. Mae cyllid ar gael i hyfforddi grŵp pellach hefyd oherwydd yr ymateb gwyll i'r prosiect. Mae'r arweinwyr newydd hyn wedi ymrwymo i wirfoddoli i arwain teithiau cerdded i Bartneriaeth Ogwen yn ystod gwyliau a digwyddiadau, yn ogystal â rhoi yn ôl i'r gymuned i helpu trigolion Dyffryn Ogwen i gysylltu â'r cynefin.

Yn ogystal, cynhaliwyd sesiwn celf i blant am ddim yn ystod yr haf a gweithgaredd prosesu hadau efo grŵp o fyfyrwyr Ysgol Dyffryn Ogwen.

## Prosiect Perthyn

Mae Partneriaeth Ogwen a Chwmni Bro Ffestiniog wedi'n comisiynu i ddarparu cymorth i sefydlu mentrau cymunedol newydd mewn ardaloedd ble mae dwysedd o ailgartrefi. Mae'r gwaith yn cynnwys helpu mentrau tai dan berchnogaeth y gymuned a mentrau cymdeithasol newydd. Mae Cynan Jones wedi bod yn cynorthwyo mentrau ar draws y gogledd orllewin yn cynnwys Menter Felinheli, Y Fic Llithfaen, Hwb Penmachno, Bys a Bawd Llanrwst a Menter Rabar, Abersoch. Yn Aberdyfi, cefnogwyd grwp lleol i gael grant o £500,000 i brynu siop a phost y pentref. Mae Cynan hefyd wedi cefnogi cymunedau Nefyn, Llithfaen, Llanaelhaearn a Threfor i geisio sefydlu Ymddiriedolaeth Tir newydd ym Mro'r Eifl.

# Economi

## CEFNOGI BUSNESAU BACH A CHANOLIG AC ADFYWIO'R STRYD FAWR

### Eiddo

Mae ein portffolio eiddo yn gyfuniad o adeiladau fel a ganlyn:

- Adeiladau rydym wedi'u prynu trwy grant a/neu fenthyciad a/neu reserfau Partneriaeth Ogwen (e.e. 26 a 27 Stryd Fawr ac Adeilad y Spar)

- Adeiladau rydym yn gyfrifol amdanynt trwy gytundeb 'beneficial ownership' gyda Chyngor Cymuned Bethesda

- Adeiladau rydym â phrydles arnynt gan Gyngor Sir Gwynedd (Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen a Chanolfan Cefnfaes)

### Siopau, Fflatiau a Stiwdios i denantiaid lleol

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau i weinyddu unedau ar Stryd Fawr Bethesda dan gytundeb 'beneficial ownership' gyda Chyngor Cymuned Bethesda. Mae pob uned fasnachol yn llawn ac mae'r tenantiaid yn cynnwys:

Cwrw Ogwen – cwmni lleol sy'n bragu cwrw

Cwmni Bwyd Môr Menai – busnes bwyd môr lleol

Siop 55 – siop nwyddau antiques sy'n is-brydlesu gan Gwmni Bwyd Môr Menai

Annie's Orphans – siop elusen yn gwerthu dillad, teganau a llyfrau ail law

**Rydym hefyd yn llogi 2 stiwdio i gwmnïau creadigol lleol –**

9Bach – artistiaid cerddorol sy'n hanu o'r Gerlan

Stiwdio Ffram – cwmni lleol sy'n fframio lluniau.

Mae 6 fflat hefyd yn cael eu llogi i denantiaid lleol a mae unedau masnachol yn cael eu rhentu allan yng Nghanolfan Cefnfaes. Mae incwm rhent yr eiddo yma yn mynd tuag at gostau cynnal a chadw'r adeiladau a chostau rhedeg Partneriaeth Ogwen sy'n cynnwys cyflogi Gofalwr Eiddo un diwrnod yr wythnos.

# Cadwyn Ogwen

Cynllun cydweithredol i werthu, danfon a chefnogi cynnyrch lleol yn Nyffryn Ogwen yw Cadwyn Ogwen. Fe'i sefydlwyd mewn ymateb i'r pandemig yn 2020 gyda chefnogaeth busnesau lleol a grantiau cyhoeddus. Yn 2023 mae Cadwyn Ogwen wedi esblygu efo grant gan prosiect Neges gan Menter Mon. Ym mis Ebrill, dechreuodd Cadwyn Ogwen weithio gyda Hwb Bwyd Dyffryn Nantlle i gyfuno'r ddau hwb bwyd er mwyn cynyddu'r amrywiaeth o gynnyrch sydd ar gael ac ehangu ein cyrhaeddiad cwsmeriaid. Ymhellach, ym mis Medi ymunodd Cadwyn Ogwen mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, gan greu man casglu yn y brifysgol i wneud cynnyrch Cadwyn Ogwen a Hwb Bwyd Dyffryn Nantlle ar gael i fyfyrwyr a staff. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda 25 o gynhyrchwyr ac yn cynnig dros 600 o gynhyrchion. O ddechrau'r flwyddyn hyd at 7 Tachwedd, bu 382 o archebion drwy Gadwyn Ogwen, sef cyfanswm o £10,736.09.

Yn anffodus, er gwaethaf yr ymdrechion i roi cynnig ar syniadau newydd ac ehangu rhwydwaith Cadwyn Ogwen, nid ydym wedi gweld cynnydd cyfatebol mewn gwerthiant na chwsmeriaid. Ariennir y prosiect hyd at ddiwedd Chwefror 2024, ac rydym ar hyn o bryd yn trafod opsiynau gyda rhanddeiliaid ynglŷn â dyfodol y prosiect ar ôl y dyddiad hwnnw.

# Cydweithfa

Fel rhan o'r gwaith adnewyddu yng Nghanolfan Cefnfaes, mae un ystafell wedi ei ddatblygu fel Cydweithfa - gofod cydweithio sydd â desgiau ar gael i'w llogi trwy system archebu ar-lein. Rydym wedi cael nifer o bobl i mewn i roi cynnig ar y gofod a rhoi adborth yn ystod mis Hydref a Thachwedd 2023 a bydd y gofod yn agor yn swyddogol cyn diwedd 2023.



# Gofod Gwneud

Gyda chefnogaeth grant Economi Gylchol gan Gyngor Gwynedd, sefydlwyd Gofod Gwneud a Thrwsio yng Nghanolfan Cefnfaes. Mae'r offer yn cynnwys nifer o eitemau fel argraffydd 3D, argraffydd sublimation, peiriannau gwnio a torrwr finyl. Roedd sesiynau cyhoeddus efo technegydd yn rhedeg ddechrau'r flwyddyn tan i ni orfod cau Canolfan Cefnfaes ar gyfer gwaith adnewyddu. Gan fod y rownd ddiweddaraf o gyllid Economi Gylchol wedi bod yn aflwyddiannus, rydym yn gweithio gyda Menter Môn a safleoedd eraill Ffiws ar gais i Gronfa Her Arfor i ariannu technegwyr ar gyfer y safleoedd. Ers ail agor Canolfan Cefnfaes, rydym wedi bod yn gwneud defnydd o'r pot bychan o arian sydd gennym ar ôl i logi technegydd i gynnal sesiynau hyfforddi penodol a hefyd cynnal sesiynau efo myfyrwyr Ysgol Dyffryn Ogwen.

Sefydlwyd grwp Gofod Gwnio efo gwirfoddolwyr ym mis Chwefror 2023 i roi cyfle i bobl wella ei sgiliau gwnio. Cynhaliwyd 16 sesiwn gyda chyfanswm o 73 o bobl yn cymryd rhan. Bu'r grŵp hefyd yn helpu i greu gwisgoedd ar gyfer y Teulu Brenhinol yng Ngharnifal Bethesda ym mis Mai. Mae'r grŵp hefyd wedi arwain sesiwn gymunedol i wneud atalyddion drafft ar gyfer bocsys gaeaf Hwb Ogwen.



Atalyddion drafft fydd yn cael eu dosbarthu i helpu aelwydydd lleol gyda chostau ynni

# Gwasanaethau Cefnogi Busnesau a Mentrau eraill

Yn 2023, mae Partneriaeth Ogwen wedi llwyddo gyda chais i gronfa Cymunedau Mentrus Arfor i ariannu cynllun mentora cymunedol. Mae'r mentora'n cynnwys mentora cyllidol a marchnata gyda'r bwriad i helpu busnesau bach a chanolig a sefydliadau lleol. Fel rhan o'r gwaith mentora cyllid rydym yn cynnig amryw o wasanaethau gwahanol i fusnesau ac unigolion lleol sy'n cynnwys cadw llyfrau, sefydlu prosesau cyllidol ar gyfer busnesau newydd, gwasanaeth gyflogres a mentora unigolion gyda'u hunan asesiad.

Ers cychwyn ar y gwaith yma mae Lliwen Morris ein Mentor Cyllid Cymunedol wedi sefydlu system gyfrifo o'r newydd ar gyfer Cymunedoli Cyf a derbyn trosglwyddiad o wasanaeth cyflogres gan Cyngor Gwynedd ar gyfer cyflogwyr sy'n derbyn taliadau uniongyrchol ar gyfer gofalwyr. Mae hi hefyd wedi mentora menter leol Coed Parc y Moch.

Ym mis Tachwedd 2023, dechreuodd Abbie Jones fel Mentor Marchnata Cymunedol a bydd hi'n arwain ar fentora busnesau a sefydliadau lleol i farchnata'n well. Edrychwn ymlaen i ehangu'r gwasanaeth marchnata a chyllid yn 2024.

Rydym hefyd yn parhau i gynnig gwasanaeth ymgynghorol i fentrau eraill gyda Cynan Jones yn arwain ar greu cynlluniau busnes ac astudiaethau budd cymunedol i fentrau. Mae cleientiaid yn ystod y cyfnod yn cynnwys Gorwel Cyf a Cyfeillion y Ddaear.



## Canolfan Cefnfaes

Cwblhawyd y gwaith adeiladu ar adain gymunedol adeilad Canolfan Cefnfaes ganol 2023 ar ôl oedi gan y contractwyr. Mae defnydd helaeth o'r ystafell gymunedol yn barod gyda grwpiau rhiantu a chlwb babis lleol yn cael eu cynnal yno. Mae'r Cydweithfa hefyd ar fin agor yn swyddogol. Arianwyd y gwaith atgyweirio hwn trwy grant Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Ganolfan wedi parhau i fod yn gartref i brosiectau a busnesau lleol gyda Black Dragon Martial Arts, Eagle House a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau yn denantiaid i ni ar y safle. Mae'r Clwb Ieuenctid hefyd wedi ailgydio yn y sesiynau wythnosol ynghyd a sesiynau amrywiol gan gymdeithasau lleol.

Rydym wedi oedi gwedd 2 a 3 o'r prosiect oherwydd diffyg capasiti staff. Cyflwynwyd 2 gais Shared Prosperity Fund i Gyngor Gwynedd a Mantell Gwynedd fyddai wedi ariannu rhywfaint o gostau atgyweirio a rheoli prosiect ond gwrthodwyd y ceisiadau hyn. Byddwn yn cydweithio gyda Ynni Ogwen yn fuan yn 2024 i osod paneli solar ar do'r adeilad.

## Twristiaeth Gymunedol

Mae Bws Ogwen wedi parhau i gynnal gwasanaeth bws gwennol rhwng Bethesda a Llyn Ogwen yn 2023 a mae'n gwasanaeth Beics Ogwen wedi llogi beiciau allan at ddefnydd ymwelwyr i'r ardal.

Trwy gydweithio gyda'r Foundational Economy Alliance, Siop Griffiths a Chwmni Bro Ffestiniog, denwyd grant o £25,000 gan sefydliad ymchwil Llywodraeth y DU (UKRI) i wneud ymchwil yn y broydd chwarelyddol ar dwristiaeth cymunedol. Cyflogwyd ymchwilwyr cymunedol ar draws y dair ardal i ganfod agweddau tuag at dwristiaeth cymunedol.




Dyluniad pensaerniol o ganolfan Yr Hen Bost

## Yr Hen Bost (Spar)

Ers prynu adeilad y Spar yn 2022, mae Partneriaeth Ogwen wedi mynd ati i godi arian cyfalaf i dalu am gostau atygweirio'r adeilad. Yn 2023, rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid Ffyniant Bro Llywodraeth San Steffan trwy law Cyngor Gwynedd a chyllid cronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru tuag at gostau cyfalaf datblygu'r adeilad. Rydym bellach wedi comisiynu'r Prif Bensaer a'r tîm dylunio llawn i ddatblygu'r adeilad a ddiwedd Tachwedd 2023, sicrhawyd caniatad cynllunio.

Bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yng Ngwanwyn 2024.

# Materion Corfforaethol

## Marchnata, Ymgysylltu a Chyhoeddusrwydd

Mae Partneriaeth Ogwen yn cynnal gwefannau www.partneriaethogwen.cymru, www.ogwen.cymru/www.ogwen.wales a www.cadwynogwen.cymru Rydym hefyd yn cynnal cyfrifon Facebook - Ogwen360, Ynni Ogwen, Siop Ogwen, Dyffryn Gwyrdd, Beics Ogwen, Cadwyn Ogwen, Hwb Ogwen a Petha gan ddiweddaru'r tudalennau hyn yn gyson. Mae gennym hefyd gyfrifon Trydar @PartneriaethOg a @YnniOgwen ac mae'r cyfrifon hyn yn cael eu dilyn gan dros fil o ddilynwyr. Mae'r holl waith marchnata a chyhoeddusrwydd yn cael ei rannu rhwng staff craidd y Bartneriaeth ond bydd Abbie Jones ein Mentor Marchnata newydd yn cefnogi staff i wella ein dulliau marchnata yn 2023. Mae gennym hefyd sianelau Youtube a sianel ar www.amam.cymru.

Mae'r Bartneriaeth hefyd yn derbyn ceisiadau i siarad gyda mudiadau lleol a chenedlaethol am ein prosiectau a rydym yn cynnal ymweliadau cyson â'n prosiectau. Mae'r ymweliadau hyn yn cynnwys grwpiau cymunedol fel Cymunedoli Cyf a Together for Change Sir Benfro a mudiadau fel Cymdeithas Dai ADRA. Rydym hefyd wedi croesawu ymwelwyr tramor o Lithuania ac Uganda. Mae'n staff hefyd yn rhoi cyflwyniadau am ein gwaith mewn cynadleddau a digwyddiadau ar hyd a lled Cymru a mae'n sefydliad yn cael ei broffilio mewn nifer o astudiaethau achos.

Ym mis Hydref 2023, cyrhaeddodd Partneriaeth Ogwen restr fer Menter Gymdeithasol y flwyddyn yng Ngwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru. Roedd hyn yn fraint ac yn gydnabyddiaeth o'n gwaith fel sefydliad.



Gwobrau Mentrau Cymdeithasol Cymru, Y Senedd Caerdydd




Ymweliad gan Together for Change Sir Benfro

## Rhwydweithiau a Phrosiectau Partneriaethol

Rydym yn parhau i bartneriaethu gyda sefydliadau eraill ar draws Gwynedd a thu hwnt i ehangu ein gwaith, ymgyrchu dros y sector a chael mynediad at grantiau pellach. Enghraifft o hyn yw cydweithio diweddar gyda 33 o fentrau cymunedol ar draws Gwynedd i sefydlu Cymunedoli Cyf. Mae'r fenter newydd hon wedi cydweithio gyda Menter Môn i ddenu cyllid grant SPF i ariannu 6 swydd gymunedol newydd yng Ngwynedd a sefydlu cronfa grant i helpu mudiadau cymunedol fel Partneriaeth Ogwen.

Yn ystod 2023, rydym wedi cefnogi gwaith strategol gyda Chyngor Gwynedd yn cynnwys cynrychioli'r sector ar Grwp Buddion Safle Treftadaeth y Byd a Grwp Tasg a Gorffen Economi Ymweld Gwynedd. Rydym hefyd wedi cyfrannu at waith adran Adfywio Cyngor Gwynedd yn datblygu cynllun adfywio Ardal Ni i Ddyffryn Ogwen.



Tîm Cymunedoli Cyf ar ymweliad â Phartneriaeth Ogwen

# Ffrydiau Incwm Partneriaeth Ogwen

Ers ein sefydlu yn 2013, rydym wedi cynyddu ein ffrydiau incwm fel sefydliad. Yn wreiddiol, darparu gwasanaeth clercio oedd prif ffynhonnell incwm y sefydliad ond bellach, dim ond 6% o'n incwm yw'r gwasanaeth clercio gyda rhenti yn gyfwerth ag 8% o'n incwm. Mae'n cyfrifon eleni yn adlewyrchu cynnydd eto yng ngwerth y grantiau rydym yn eu denu i'r ardal gyda 74% o'n incwm. Y prif grantiau a ddaeth i fewn yn 2022 -23 oedd grant WEFO tuag at gynllun Bws Ogwen, grantiau Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd tuag at gostau Hwb Ogwen a grant y Loteri Gymunedol tuag at gostau prosiect Dyffryn Gwyrdd. Mae'r gwasanaeth ymgynghorol a gweinyddol yn ffrwd incwm rydym yn rhagweld y bydd yn tyfu dros y flwyddyn i ddod. Yn bennaf oherwydd mwy o ansicrwydd am grantiau cyhoeddus a'n dymuniad i warchod swyddi gan gadw'r tîm o staff arbennig sydd gennym yn y sefydliad.


Yn ogystal â dadansoddi ein incwm a gwariant fel sefydliad, rydym bellach yn ceisio edrych ar yr arbedion ariannol mae ein gwaith ni'n ei greu i'r gymuned. Mae nifer o'n prosiectau yn arbed arian yn uniongyrchol ac anuniongyrchol e.e. mae prydau poeth Swpar Chwaral a phecynnau bwyd Hwb Ogwen yn arbed costau i deuluoedd lleol a'r cyngor budd-daliadau yn gallu helpu unigolion i arbed symiau sylweddol o arian. Mae'n gwaith i leihau biliau ynni a'n gwaith gyda ailgylchu gwisgoedd ysgol hefyd yn creu arbedion. Rydym wedi dechrau amcangyfrif y math hyn o arbedion a rhagdybiwn fod yr arbedion i'n cymuned dros £40,000 y flwyddyn.

# Crynodeb Ariannol


**Mae Partneriaeth Ogwen yn llwyddo i ddenu nifer o grantiau yn flynyddol.**

Cyfanswm incwm yn ystod 2022/23
**£907,246.52**

Cyfanswm Gwariant yn ystod 2022/23
**£907,961.81**




**Gwariant Partneriaeth Ogwen yn ystod 2021/22 a 2022/23**




## Casgliadau a Symud Ymlaen

Mae Partneriaeth Ogwen wedi llwyddo i gyflawni a mynd tu hwnt i'r targedau yn ein Llwybr Trawsnewid a mae'n prosiectau yn gwneud gwahaniaeth yn lleol. Mae hyn i lawr i waith caled staff a gwirfoddolwyr sydd eisiau gwneud gwahaniaeth i'n cymuned, economi, iaith a diwylliant ac amgylchedd. Hoffai'r staff i gyd ddiolch i'r holl wirfoddolwyr ar ein Bwrdd a'r rhai sy'n helpu gyda'n prosiectau am eu cymorth a'u cefnogaeth.

MD 30/11/2023

**Atodiad 1 – Cyrhaeddiad Llwybr Trawsnewid Partneriaeth Ogwen**

Isod mae dadansoddiad o'n cyrhaeddiad yn erbyn Llwybr Trawsnewid y sefydliad dros y 3 mlynedd diwethaf. Dadansoddiad ystadegol yn erbyn ein targedau allbwn ond hefyd dadansoddiad o'n impact byr dymor a hir dymor.

## Targedau Llwybr Trawsnewid – Cynnal Cymuned Gynhwysol

| Gweithgaredd | Targed Allbwn | Cyflawniad erbyn Rhagfyr 2023 | Deilliannau Byr Dymor Wedi eu Cyflawni |
|---|---|---|---|
| **Cynnal swyddfa Ogwen ar y Stryd Fawr fel pwynt cyswllt ar gyfer 3 Chyngor Cymuned y dalgylch.** | 1300 o ymweliadau gan drigolion i swyddfa Ogwen bob blwyddyn. | Ymweliadau yn ystod 2023 = 570 ymwelydd â Swyddfa Dyffryn Gwyrdd a 1,200 Partneriaeth Ogwen | Cyswllt agosach rhwng y gymuned a'r 3 Chyngor Cymuned lleol. |
| **Darparu gwasanaeth clercio i'r 3 chyngor cymuned.** | Gwasanaeth clercio o safon i 3 chyngor cymuned. | Parhau i gynnal gwasanaeth clercio i'r 3 Chyngor Cymuned gyda 32 o gyfarfodydd Cyngor Cymuned wedi eu gweinyddu yn ystod 2023. | Mwy o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli a chyfrannogi yn Nyffryn Ogwen. |
| **Datblygu cyfleon gwirfoddoli amrywiol trwy brosiectau Dyffryn Gwyrdd, Siop Ogwen a Chadwyn Ogwen.** | Trefn recriwtio, cofnodi a chefnogi gwirfoddolwyr mewn lle. | 84 o wirfoddolwyr a chyfanswm o 1042.05 awr o wirfoddoli wedi ei gyflawni yn 2023. | Mwy o gyfleoedd gwaith i bobl ifanc yn eu cymunedau a mwy o arweinwyr cymunedol. |
| **Ymgynghori â pobl ifanc a darparu profiadau gwaith, prentisiaethau, cyflogaeth a phrofiadau gwirfoddoli amrywiol iddynt.** | 3 o bobl ifanc (16-24 oed) yn gwirfoddoli/gweithio efo Partneriaeth Ogwen bob blwyddyn. | 4 person ifanc dan 30 oed ar gyflogres Partneriaeth Ogwen yn ystod 2023 a 3 person ifanc wedi gweithio i Siop Ogwen.<br><br>Mae 25 o bobl ifanc wedi gwirfoddoli efo ni yn ystod 2023.<br><br>Yn ystod 2020-23, mae cyfanswm o 8 person ifanc wedi gweithio i ni | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (3 fel rhan o gynllun Byw a Bod, 2 trwy gynllun Llechi, Glo a Chefn Gwlad, 2 trwy gynllun Kickstart ac un trwy gynllun profiad gwaith Coleg Llandrillo Menai) | |

**TARGEDAU IMPACT HIR DYMOR–**

- Cyfranogiad uwch gan ein cymuned a phobl ifanc mewn prosiectau datblygu cymunedol a democratiaeth lleol.
- Iechyd a Lles ac ymdeimlad o berthyn yn cynyddu yn ein cymuned.

**SYLWADAU AR BOTENSIAL IMPACT HIR DYMOR AR SAIL 3 MLYNEDD O WEITHREDU'R UCHOD**

**Nodwn fod nifer y gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â phrosiectau'r Bartneriaeth yn cynyddu a bod mwy o bobl ifanc wedi gweithio a gwirfoddoli efo Partneriaeth Ogwen dros y dair mlynedd ddiwethaf. Mae cynlluniau fel Byw a Bod a chynllun Llechi, Glo a Chefn Gwlad wedi'n helpu i greu arweinwyr cymunedol newydd yn 2020-2022 ac erbyn 2023, mae canran staff dan 30 oed y sefydliad wedi cynyddu i 19%. Tu hwnt i ddalgylch Dyffryn Ogwen, mae Partneriaeth Ogwen hefyd wedi gweithio ar gynlluniau partneriaethol megis Grymuso Gwynedd sydd wedi llwyddo i greu rolau arweinwyr cymunedol i 5 unigolyn gyda Cymunedoli. Yn ôl un person ifanc sydd wedi gweithio efo ni –**
**"Fyswn i ddim wedi cael y swydd dwi ynddi hi rwan oni bai am y cyfleoedd ges i efo Partneriaeth Ogwen"**

**Mae nifer ein gwirfoddolwyr dros y 3 mlynedd ddiwethaf wedi bod yn cynyddu a mae ansawdd y profiadau hynny yn gyfoethog ac amrywiol. Mae'n systemau i gofnodi, datblygu a chefnogi gwirfoddolwyr hefyd wedi gwella dan arweiniad ein Cydlynydd Gwirfoddolwyr gyda nifer o'r gwirfoddolwyr newydd yn unigolion sydd wedi cael budd o'n gwasanathau cymorth ni.**

## Targedau Llwybr Trawsnewid – Atal Tlodi

| Gweithgaredd | Targed Allbwn | Cyflawniad erbyn Rhagfyr 2023 | Deilliannau Byr Dymor Wedi eu Cyflawni |
|---|---|---|---|
| **Datblygu cynllun a Hwb Dyffryn Gwyrdd i atal tlodi yn Nyffryn Ogwen yn cynnwys prosiectau penodol i fynd i'r afael a thlodi tanwydd, tlodi bwyd a** | Cyfeirio 300 o drigolion at wasanaethau cymorth Dyffryn Gwyrdd ac asiantaethau eraill bob blwyddyn. | 2297 o ymwelwyr wedi mynychu Hwb Ogwen yn 2023.<br><br>Rhoddwyd cymorth i 539 o gleientiaid gan ein Warden Ynni a | Trigolion mwyaf bregus ein cymuned yn cael cymorth ychwanegol i'w helpu allan o dlodi ac unigedd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **thlodi trafnidiaeth.** | | dosbarthwyd 353 Taleb Tanwydd. | |
| **Datblygu Banc Bwyd a Chynllun Rhannu Bwyd Dyffryn Ogwen trwy ddosbarthu bwyd a chydlynu tim o wirfoddolwyr.** | 1000 o becynnau cymorth bwyd yn cael eu rhannu bob blwyddyn. | Yn 2023, dosbarthwyd 1120 pecyn bwyd argyfwng a cyfeirwyd 225 person at Fanc Bwyd Arfon neu Fangor am gymorth ychwanegol. | |
| **Datblygu Cynllun Cyfaill Cymunedol i ddanfon prydau poeth, lleihau unigedd a hyrwyddo cynhwysiant digidol.** | 1000 o brydau Cyfaill Cymunedol yn cael eu darparu bob blwyddyn. | 726 o brydau Cyfaill Cymunedol wedi eu dosbarthu yn 2023 sy'n gyfanswm o 2498 pryd ers cychwyn y cynllun yn 2020.<br>Yn ystod 2023, mae'r Cyfaill Cymunedol wedi cynnal 20 digwyddiad gyda 331 o fynychwyr, 29 Sesiwn Ffitrwydd gyda 261 o gyfranogwyr. | |
| **Sefydlu cynllun cludiant cymunedol gwyrdd fydd yn cludo trigolion mewn tlodi trafnidiaeth i apwyntiadau meddygol, gwaith a chymdeithasol.** | 100 o deithiau blynyddol yn y cerbyd cymunedol. | 155 o siwrneai yn Efan y car cymunedol. | |

**TARGEDAU IMPACT HIR DYMOR**

- Llai o dlodi yn Nyffryn Ogwen gyda llai o bobl yn gorfod defnyddio'r banc bwyd a llai o bobl mewn tlodi trafnidiaeth.
- Cydweithio agosach gyda asiantaethau eraill i ddarparu cefnogaeth i drigolion sy'n dioddef tlodi ac unigedd.

**CYRHAEDDIAD IMPACT HIR DYMOR –**
**Dros dair mlynedd y Llwybr Trawsnewid hwn, rydym wedi mynd tu hwnt i bob targed allbwn ac wedi datblygu prosiectau ychwanegol i atal tlodi yn Nyffryn Ogwen. Mae datblygiad Hwb Ogwen a'r galw cynyddol am y gwasanaethau hyn yn dangos galw cynyddol am gymorth i daclo tlodi. Mae'r gwasanaeth a gynigir o Hwb Ogwen yn un traws asiantaethol gan roi cyfle i gyfeirio defnyddwyr at wasanaethau eraill e.e. cymorth digidol, cardiau SIM. Mae mesur effaith y gwasanaeth yn anodd ond mae cefnogaeth yr Hwb wedi a gwasanaethau llesiant a chludiant cymunedol tîm Dyffryn Gwyrdd wedi helpu carfan fawr o'n cymuned.**

| Targedau Llwybr Trawsnewid – Prosiectau tyfu cymunedol a gwirfoddoli amgylcheddol er budd llesiant | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Targed Allbwn** | **Cyflawniad erbyn Rhagfyr 2023** | **Deilliannau Byr Dymor Wedi eu Cyflawni** |
| **Prosiect Dyffryn Gwyrdd i arwain sesiynau llesiant a'r amgylchedd yn cyfuno iechyd corfforol a gweithredu amgylcheddol (e.e. Sesiynau Efeicio a Sesiynau Plannu Cymunedol)** | 50 o sesiynau llesiant a'r amgylchedd wedi eu cynnal. | 87 o sesiynau llesiant yn ystod 2023. | Trigolion mwyaf bregus ein cymuned yn cael cymorth i ddod allan o dlodi tanwydd. |
| **Ardaloedd gwyrdd cymunedol newydd i gael eu adnabod a'u datblygu.** | 3 ardal werdd gymunedol wedi eu datblygu a gardd Llys Dafydd wedi ei adfywio'n natur gyfeillgar. | 4 rhandir newydd wedi eu datblygu yn 2023 gyda chyfanswm o 24 o randiroedd bellach yng Ngerddi Ffrancon.<br><br>Rydym wedi parhau i gynnal gerddi cymunedol Tan Twr, Gardd Gymunedol Ffrancon a Llys Dafydd. | Mwy o gyfleoedd gwirfoddoli amgylcheddol yn dod a buddion llesiant ac amgylcheddol.<br><br>Mwy o ardaloedd gwyrdd yn cael eu cynnal yn lleol. |

**TARGEDAU IMPACT HIR DYMOR**

- Ôl troed carbon y Dyffryn yn lleihau.
- Cydweithio agosach gydag asiantaethau eraill sy'n ceisio atal tlodi tanwydd a hyrwyddo effeithlonrwydd ynni.

**CYRHAEDDIAD IMPACT HIR DYMOR –**
**Mae nifer o'n prosiectau yn lleihau ôl troed carbon y Dyffryn. Mae'n holl fflyd yn gerbydau trydan gyda rhai ohonynt yn cael eu pweru gan baneli solar Ynni Ogwen. Mae'r cerbydau cymunedol wedi teithio dros 26,000 o filltiroedd yn 2023 sy'n arbediad o 181g o garbon fesul kilomedr o yrru. Mae hyn yn gyfwerth â 11,651KG o arbediad carbon.**
**Mae nifer o'n prosiectau yn lleihau ôl troed carbon y Dyffryn. Mae'n holl fflyd yn gerbydau trydan gyda rhai ohonynt yn cael eu pweru gan baneli solar Ynni Ogwen. Mae'r cerbydau wedi teithio 47,930 o filltiroedd yn 2023 Mae hyn yn gyfwerth â 30.3 tunnell o arbediad carbon.**

**Dros gyfnod y llwybr trawsnewid hwn, mae'r cerbydau wedi teithio 87,930 o filltiroedd. Mae hyn yn gyfwerth a 55.5 tunnell o arbediad carbon dros dair mlynedd.**



**Mae ystod y gwaith llesiant dros y dair mlynedd ddiwethaf wedi bod yn eang gyda'n cymuned yn**

**cael mynediad i ddigwyddiadau awyr agored, celf, beicio a llawer mwy er budd eu llesiant meddyliol a chorfforol. Mae nifer o'r profiadau hyn hefyd wedi rhoi cyfle iddynt ymgysylltu efo'u cymuned.**

**Rydym hefyd wedi cyd-greu gofodau gwyrdd cymunedol newydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf sydd yn hafan i drigolion lleol ac i gynefinoedd newydd. Mae rhain yn adnoddau cymunedol i'w cynnal a'u meithrin dros y blynyddoedd i ddod.**

**Mae gwerth budd cymunedol prosiect Dyffryn Gwyrdd yn £10.71 am bob punt a fuddsoddwyd yn y cynllun.**

## Targedau Llwybr Trawsnewid – Taclo Newid Hinsawdd

| Gweithgaredd | Targed Allbwn | Cyflawniad erbyn Rhagfyr 2023 | Deilliannau Tymor Byr wedi eu Cyflawni |
|---|---|---|---|
| **Prosiect GwyrddNi i ddechrau yn 2021 gyda bwriad i ddatblygu Cynulliad Newid Hinsawdd yn Nyffryn Ogwen.** | Cynulliad Newid Hinsawdd wedi ei sefydlu ac yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. | Cynulliad Cymunedol i atal Newid Hinsawdd yn Nyffryn Ogwen wedi ei sefydlu ac wedi cyfarfod 3 gwaith. | Pobl leol yn cydweithio i daclo newid hinsawdd. |
| **Prosiectau amgylcheddol newydd yn cael eu sefydlu yn cynnwys bws gwennol trydan a cherbyd trydan cymunedol.** | Gwasanaeth bws gwennol a cherbydau trydan wedi ei sefydlu. | Gwasanaeth Bws Gwennol wedi ei sefydlu yn haf 2022.<br><br>Cynllun Beics Ogwen wedi ei sefydlu.<br><br>Cynllun Petha wedi ei sefydlu.<br><br>Partner yng nghynllun Sero Net Gwynedd i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi a chanolfannau cymunedol ar draws Gwynedd. | Llai o allyriadau carbon yn y Parc Cenedlaethol. |

**TARGEDAU IMPACT HIR DYMOR**

- Dyffryn Ogwen yn arwain o ran datblygu cynaladwy cymunedol.
- Math newydd o dwristiaid yn dod i'r ardal ac yn cefnogi'r economi leol.

**CYRHAEDDIAD IMPACT HIR DYMOR –**
**Mae'r deilliannau tymor byr o leihau allyriadau yn sicr yn cael ei wireddu trwy ein defnydd o gerbydau a beiciau trydan a mae'n gwaith ni hefyd wedi llwyddo i ddod ag ystod eang o bobl at ei gilydd i daclo newid hinsawdd, boed trwy ein prosiectau neu trwy'r Cynulliad Cymunedol ar yr hinsawdd sydd wedi ei sefydlu trwy brosiect GwyrddNi.**

**O ran impact hirdymor y gwaith yma, rydym yn parhau i weithio tuag at hyn a gellir dweud fod cymunedau eraill yn sicr yn troi tuag atom am gyngor neu ysbrydoliaeth yn y maes cynaladwyedd. Rydym yn un o astudiaethau achos Cyfeillion y Ddaear a rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth am ein gwaith cynaladwyedd mewn nifer o gynadleddau a digwyddiadau cenedlaethol.**

**Rydym yn gobeithio y bydd Bws Ogwen a chynllun Beics Ogwen yn denu math newydd o dwristiaid i'r ardal. Mae gwaith marchnata ar y cyd gyda'r Parc Cenedlaethol ar y gweill a rydym yn aelod o Weithgor Strategaeth Twristiaeth Gynaladwy Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd.**

## Targedau Llwybr Trawsnewid – Iaith a diwylliant

| Gweithgaredd | Targed Allbwn | Cyflawniad erbyn Rhagfyr 2023 | Deilliannau Tymor Byr Wedi eu Cyflawni |
|---|---|---|---|
| **Parhau i gynnal gweithleoedd, cyfleoedd gwirfoddoli a phrosiectau cyfrwng Cymraeg yn Nyffryn Ogwen.** | 3 gweithle cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnal gan Bartneriaeth. | Swyddfa Ogwen, Swyddfa Dyffryn Gwyrdd, Hwb Ogwen a swyddfa Canolfan Cefnfaes yn weithloeoedd cyfrwng Cymraeg i staff Partneriaeth Ogwen. | Mwy o weithleoedd cyfrwng Cymraeg. |
| **Parhau i gefnogi datblygiad Siop Ogwen – siop lyfrau Gymraeg a chrefftau ar y Stryd Fawr Bethesda.** | Siop Ogwen yn parhau i fod ar agor ar y Stryd Fawr a chynyddu gwerthiant arlein ac mewn marchnadoedd lleol. | Siop Ogwen yn parhau i fod ar agor ac yn gwerthu ar lein ar Cadwyn Ogwen ac mewn marchnadoedd Nadolig lleol. | Mwy o gyfleoedd i weithio yn Gymraeg. |
| **Arwain prosiectau diwylliannol perthnasol e.e. dathliadau 200 mlwyddiant Bethesda.** | 5 digwyddiad/gweithgaredd treftadaeth bob blwyddyn. | 10 digwyddiad/ gweithgaredd yn 2021. 12 digwyddiad yn 2022 ac 14 digwyddiad yn 2023 (gweithgareddau celf Dyffryn Gwyrdd a gweithgareddau Gwyl Gwenllian. | Pobl leol yn cael cyfle i ddathlu treftadaeth a diwylliant. |
| **Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan** | 50 o fusnesau yn defnyddio'r Gymraeg ar | Mae 50 busnes ar Ogwen.cymru gyda | Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **fusnesau lleol.** | ogwen.cymru a Cadwyn Ogwen. | disgrifiad cwmni dwyieithog. Mae cynhyrchwyr Cadwyn Ogwen hefyd yn hyrwyddo'n ddwyieithog ar www.cadwynogwen.cymru | fusnesau. |

**TARGEDAU IMPACT HIR DYMOR**

- Normaleiddio'r Gymraeg fel iaith gwaith.
- Codi hyder pobl i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gwaith.
- Cynnal y Gymraeg a'r diwylliant yn lleol.
- Mwy o statws i'r Gymraeg ymysg y sector fusnes.

**CYRHAEDDIAD IMPACT HIR DYMOR –**

**Mae'r deilliannau tymor byr yn sicr yn cael eu gwireddu gyda pholisi iaith cadarn a mesurau i gefnogi defnydd o'r Gymraeg gan Bartneriaeth Ogwen. Y Gymraeg yw iaith weinyddol a gweithredol naturiol Partneriaeth Ogwen a rydym yn cefnogi taith ieithyddol ein staff gyda hyfforddiant gloywi iaith. Rydym hefyd yn trefnu digwyddiadau diwylliannol ac yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg gan y sector fusnes. Rydym yn cyfeirio busnesau at wasanaethau cefnogol Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ac yn helpu gyda man gyfieithiadau yn ôl y galw. Mae'n pendantrwydd ieithyddol hefyd yn gadarn gyda'n staff yn gwneud cyfweliadau a chyflwyniadau trwy gyfrwng y Gymraeg i nifer o gynadleddau ar draws Cymru ac ar raglenni teledu Prydeinig megis Countryfile a fideo ymgyrchol Cyfeillion y Ddaear Prydain.**

**Yn 2023, rydym yn darparu gwasanaethau mentora cyllid a marchnata dwyieithog i'n cymuned ac yn helpu mentrau cymdeithasol newydd i sefydlu mewn broydd Cymraeg dan gynllun Perthyn.**

## Targedau Llwybr Trawsnewid – Cefnogi busnesau bach a chanolig ac Adfywio'r Stryd Fawr

| Gweithgaredd | Targed Allbwn | Cyflawniad erbyn Rhagfyr 2022 | Deilliannau Tymor Byr wedi eu Cyflawni |
|---|---|---|---|
| **Prynu adeiladau gwag ar y Stryd Fawr i'w cadw mewn perchnogaeth leol a'u rhentu allan i fusnesau eraill neu gynnal prosiectau ohonynt.** | 90% o eiddo Partneriaeth Ogwen mewn defnydd trwy gydol y flwyddyn. | Mae un fflat yn wag ar ddiwedd 2023 ond mae pob eiddo arall yn llawn. | Mwy o siopau ar agor ar y Stryd Fawr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Datblygu gwasanaeth Cadwyn Ogwen – gwasanaeth archebu a danfon cynnyrch lleol mewn cerbyd trydan cymunedol.** | 20 o fusnesau lleol yn gwerthu ar blatfform Cadwyn Ogwen. | Rydym wedi cydweithio efo 25 o gwmniau yng nghyswllt Cadwyn Ogwen yn 2023 gan werthu 600 o gynhyrchion ar blatfform Cadwyn Ogwen. | Cynhyrchwyr lleol efo 'outlet' lleol ar-lein i'w cynnyrch. |
| **Darparu gwasanaethau cefnogi busnes ar lefel micro yn ein cymunedau.** | Cydweithio neu gefnogi 30 o fusnesau lleol bob blwyddyn. | Rydym yn parhau i gefnogi busnesau trwy gynllun Cadwyn Ogwen, Cynllun Mentora a thrwy gynnal gwefan www.ogwen.cymru | Busnesau lleol yn tyfu a ffynnu. |
| **Cynnal gwefan www.ogwen.cymru** | Cynyddu y nifer o fusnesau lleol sydd efo presenoldeb ar wefan www.ogwen.cymru | Mae 50 busnes ar ogwen.cymru a 25 ar Cadwyn Ogwen. | Busnesau lleol yn tyfu a ffynnu. |
| **Trefnu gweithgareddau i adfywio'r Stryd Fawr yn cynnwys digwyddiadau yn Llys Dafydd.** | Cynnal 10 o ddigwyddiadau yn Llys Dafydd bob blwyddyn gan gofnodi cynnydd footfall y Stryd Fawr ar system fonitro Patrwm. | Atgyweirwyd wal gefn Llys Dafydd ac agorwyd y safle ddechrau Ionawr 2023. | Mwy o bobl leol yn cefnogi'r Stryd Fawr. |


**TARGEDAU IMPACT HIR DYMOR**

- Pobl leol yn cefnogi busnesau lleol
- Busnesau micro lleol yn tyfu a ffynnu
- Buddsoddwyr preifat yn agor siopau yn yr ardal

**CYRHAEDDIAD IMPACT HIR DYMOR –**

**Yn ystod cyfnod y Llwybr Trawsnewid, rydym wedi cynyddu nifer ein asedau a denu buddsoddiad sylweddol i adfywio ein adeiladau ar y Stryd Fawr. Mae hyn yn cynnwys pryniant adeilad y Spar a denu buddsoddiad gwerth1.6 miliwn trwy gefnogaeth cronfa Levelling Up Gwynedd a'r gronfa Economi Gylchol. Bydd unedau busnes newydd yn cael eu creu o fewn yr adeilad yma a Chanolfan Treftadaeth.**

**O ran sicrhau fod mwy o bobl leol yn cefnogi'r Stryd Fawr, mae dadansoddiad o ddata system PATRWM yn ein helpu i adnabod tueddiadau o ran cynnydd neu ostyngiad mewn nifer pobl ar y Stryd Fawr. Yn y cyfnod Rhag 1af 2022 - Tachwedd 30ain 2023 roedd 672 person wedi ymweld a stryd fawr Bethesda bob dydd ar gyfartaledd. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r 151 ar gyfartaledd y llynedd.**




**Ein gobaith yw y bydd datblygiad canolfan Yr Hen Bost yn denu mwy o ymwelwyr i'r Stryd Fawr ymhen blynyddoedd a byddwn yn parhau i gefnogi a hyrwyddo busnesau lleol a cheisio denu mwy o dwristiaid i gefnogi busnesau'r Stryd Fawr.**

**Mae Cadwyn Ogwen a gwefan [www.ogwen.cymru](http://www.ogwen.cymru) yn gamau i gefnogi'r busnesau bach yn ein cymuned a mae Cadwyn Ogwen a Siop Ogwen yn meithrin busnesau bach lleol.**

## Targedau Llwybr Trawsnewid – Economi Werdd

| Gweithgaredd | Targed Allbwn | Cyflawniad erbyn Rhagfyr 2023 | Deilliannau Tymor Byr Wedi eu Cyflawni |
|---|---|---|---|
| **Datblygu Canolfan Cefnfaes fel Canolfan Ragoriaeth Cynaladwyedd gyda gofod byncws, datblygu economaidd a gofod amlbwrpas i'w logi allan.** | Canolfan Cefnfaes wedi ei adnewyddu erbyn Gwanwyn 2022. | Gwedd 1 datblygiad Canolfan Cefnfaes wedi ei gwblhau sef datblygiad gofod cymunedol newydd, swyddfa, gofod gwneud a Chydweithfa. Bydd ceisiadau grant pellach yn cael eu gwneud ar gyfer gwedd 2 a 3 o'r prosiect. | Ased cymunedol wedi ei uwchraddio er budd ein cymuned, amgylchedd ac economi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Datblygu prosiectau twristiaeth Gynaliadwy a Chymunedol.** | Prosiect Twristiaeth Gymunedol Dolan wedi ei ddatblygu erbyn Gwanwyn 2022. | Adroddiad Cymunedoli Tai Gwyliau wedi ei lunio ar ran Dolan. Prosiectau twristiaeth gynaladwy eraill wedi eu datblygu – yn benodol, pryniant yr hen Spar i ddatblygu Canolfan Dreftadaeth yr Hen Bost. | Cymunedoli'r sector dwristiaeth yn lleol a lle'n bosibl, perchnogi rhai asedau twristaidd. |
| **Paratoi ceisiadau grant i sefydlu bws gwennol trydan fyddai'n cludo ymwelwyr o Ddyffryn Ogwen i fyny i Nant Ffrancon ac yn ol.** | Cynllun Bws Gwennol Trydan wedi ei sefydlu erbyn 2022. | Ceisiadau grant wedi llwyddo a gwasanaeth bws gwennol wedi ei sefydlu yn 2022. | Lleihau problemau parcio yn Nant Ffrancon a chynyddu'r budd economaidd lleol gan dwristiaid i'r ardal. |

**TARGEDAU IMPACT HIR DYMOR**

- Cryfhau'r budd cymunedol ac amgylcheddol o dwristiaeth.

**CYRHAEDDIAD IMPACT HIR DYMOR –**

**Mae'r deilliannau tymor byr wedi dechrau cael eu cyflawni gyda gwaith ar wedd 1 prosiect datblygu Cefnfaes wedi ei gwblhau a datblygiad cynllun Bws Ogwen yn cyfrannu at gymunedoli'r diwydiant twristiaeth a lleihau problemau parcio yn Nant Ffrancon a dod a mwy o ymwelwyr i'r Stryd Fawr. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, teithiodd 1063 ar y gwasanaeth bws gwennol. Mae'n dull gweithredu wrth ddatblygu Bws Ogwen yn golygu hefyd fod adnodd twristaidd hefyd yn adnodd cymunedol, gyda'r bws yn cael ei ddefnyddio gan ein cymuned tu hwnt i'r cyfnodau twrstaidd. Mae'r defnydd cymunedol yn cynnwys teithiau siopa i'r henoed, defnydd gan y Clwb Rygbi a mudiadau lleol eraill.**

**Wrth edrych ymlaen tua'r dyfodol byddwn yn cymharu ffigyrau 'footfall' y Stryd Fawr ar system PATRWM i ddadansoddi a gweld os oes mwy o ymwelwyr yn dod i'r ardal yn dilyn prosiectau fel Bws Ogwen a'r Ganolfan Dreftadaeth.**

**Mae datblygiad y gwasanaeth mentora busnes a chyllid cymunedol yn gamau i gefnogi'r busnesau bach yn ein cymuned a mae Cadwyn Ogwen a Siop Ogwen hefyd yn meithrin busnesau bach lleol.**

**Partneriaeth Ogwen**

26 Stryd Fawr Bethesda,
Bangor, LL57 3AE

P. 01248 602 131
E. partneriaeth@ogwen.org
www.ogwen.org